ECO'R WYDDFA

RHIF 281 MEDI 2001 PRIS 40c

ANGEN GOLYGYDD

Mae'r ddau ohebydd presennol wedi gofalu am yr Eco ers rhifyn Mai 1992 – cyfnod o 9 mlynedd, a 103 o rifynnau. Mae'r ddau ohonynt yn awyddus i drosglwyddo'r papur i ofal golygydd neu olygyddion newydd cyn diwedd Rhagfyr eleni.

Cysylltwch â ni os oes gennych ddiddordeb yn y gwaith.
John Pritchard ac Iwan Roberts

CANTORION O FRI

Dau fyfyriwr lleol yn mynd am y "FERRIER"

Mae dau fyfyriwr ifanc o'r fro wedi dod i'r brig ar ddiwedd eu blwyddyn gyntaf yn y Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd. Mari Wyn Williams, Rhes Fictoria, Llanberis a Huw Llywelyn Jones, Llys Alaw, Bethel, oedd y ddau fyfyriwr a gafodd y marciau ychaf yn eu harholiad ar ddiwedd tymor yr haf. Yn sgil eu llwyddiant, bydd y ddau yn cynrychioli'r Coleg yn y gystadleuaeth bwysig am Ysgoloriaeth Catherine Ferrier. Mae ennill yr hawl i ymgeisio am yr Ysgoloriaeth honno yn dipyn o gamp ynddo'i hun. Byddant yn cystadlu yn fuan wedi dychwelyd i'r Coleg ar gyfer y tymor newydd. Dymunwn yn dda i'r ddau. Wrth eu llongyfarch, yr ydym yn ymfalchïo bod y traddodiad diweddar o feithrin cantorion ifanc ym mro'r Eco yn amlwg yn parhau.

Mari Wyn Williams

Mae Mari Wyn eisoes wedi cael rhan yn yr opera Hansel a Gretel gan Englebert Huperdink, ac wedi canu rhan Ida yn yr opera Die Fliedermouse. Mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Dolbadarn ac Ysgol Brynrefail, ac mae wedi bod yn wyneb cyfarwydd ar lwyfannau eisteddfodau a chyngherddau lleol ers rhai blynyddoedd. Bu'n aelod o'r grwp Aria fu'n diddanu cynulleidfaoedd y fro hefyd. Mae hefyd wedi cael profiad o ganu ar y teledu.

Huw Llywelyn Jones

Mae Huw Llywelyn yn aelod o Gôr Ieuenctid Cymru, ac yn ystod mis Gorffennaf bu ar daith gyda'r Côr i Budapest a Vienna lle roedd yn unawdydd yn y cyflwyniad o'r Offeren yn G gan Schubert. Bu'n llwyddiannus yng Ngŵyl Gerdd Caer ac yng Ngŵyl Gerdd Southport ac, yn fwy diweddar roedd yn un o dri o'r Coleg a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Canwr Ifanc y Flwyddyn Dyffryn Morgannwg. Mae yntau'n un o gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail, a chyn hynny Ysgol Bethel.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at glywed llawer mwy am lwyddiannau'r ddau yn ystod eu cyfnod yn y Coleg Cerdd a Drama ac ym mha yrfa bynnag y byddant yn ei dilyn.

Suo Gân Siân Wyn Gibson

Llun: Geraint Llewelyn

Cyd-ddigwyddiad llwyr a'm denodd i stondin Cwmni Recordiau Sain ar faes Eisteddfod Genedlaethol Dinbych eleni i brynu disg Siân Wyn Gibson, gyda'r gantores ei hun yn bresenol. Llwyddais yn y fan a'r lle i gael ei llofnod ar y clawr, yn ogystal â chael clamp o sws (ar fy moch!) i selio'r digwyddiad. Er mor ddymunol y cyfarfyddiad, eilbeth yn wir ydoedd i'r wefr a gefais o wrando ar gynnwys y ddisg. Proffwydais sawl blwyddyn yn ôl y byddai Siân yn seren rhyw ddydd. Cofiaf hi'n canu ar fy aelwyd, cofiaf hi'n cystadlu'n llwyddiannus mewn sawl eisteddfod leol, cofiaf hi'n canu gyda Gwlith a Thriawd Cynefin, ac fe'i cofiaf hi fel cymêr! O bosib mai'r cyfuniad yna a'i gwnaeth hi'n seren.

I'r anghyfarwydd, fe'i ganed yn Neiniolen yn ferch i Eirlys ac Owie Gibson. Ar ôl gadael Ysgol Brynrefail aeth ymlaen i Goleg Cerdd Manceinion gan ennill ysgoloriaethau y 'Countess of Munster Trust', y 'Peter Moores Foundation', y 'Buttle Memorial Trust' a Gwobr Gwilym Gwalchmai. Dim rhyfedd iddi gael ei derbyn i gwmnïau opera adnabyddus fel y 'D'oyly Carte' ac 'Opera North' yn Leeds. Tra yn aelod o'r cwmnïau hyn derbyniodd

(Parhad ar dudalen 22)

Ennill yn Y Genedlaethol

Elfed Morris, Enillydd yr Unawd i Fechgyn

ECO'R WYDDFA

RHIF 281
MEDI

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Hydref	Medi 17	Medi 27	Penisarwaun	Mrs Ann Evans
Tachwedd	Hydref 22	Tachwedd 1	Llanberis	Mr Gwilym Evans
Rhagfyr	Tachwedd 19	Tachwedd 29	Caeathro	Mr Clive James

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cyfni Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650788)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Dcunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, MEDI 17
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEDI 27

Llythyrau

Annwyl Gyfaill

Owain Glyndŵr

'y gŵr rhyfeddol hwn, un atyniadol a hollol unigryw mewn cyfnod o wleidyddiaeth hunanol a llygredig'
George Macaulay Trevelyan

Digwyddiad newydd gan Antur Waunfawr eleni fydd Diwrnod Dathlu Owain Glyndŵr. Bydd awyrgylch gynnes ac anffurfiol i'r noson.

Bydd yn cychwyn gyda gwledd flasus o fwyd a gwin Cymreig (3 chwrs), y fwydlen wedi ei haddasu o wledd fyddai Owain Glyndŵr ei hun wedi fwynhau yn ei lys yn Sycharth. Bob Morris, Prifysgol Cymru Bangor fydd wedyn yn ein diddanu gyda hanesion o'r cyfnod. I ddilyn ceir cerddoriaeth draddodiadol.

Gan fod y nifer yn gyfyngedig (uchafswm o 30 o bobl) rydym yn sgwennu at gyfeillion yr Antur gyntaf i'ch gwahodd i archebu eich tocynnau cyn diwedd mis Awst. Os bydd lle ar ôl hynny, byddwn yn hysbysebu yn ehangach.

Cynhelir y dathliad ar nos Sadwrn, 15 Medi am 7.00 yr hwyr. Bydd tocynnau ar gael am £15 yr un, yn cynnwys un gwydryn o win (gellir prynu rhagor fesul gwydryn neu botel). Felly os am noson allan dipyn gwahanol i'r arfer, cysylltwch â'r swyddfa ar y rhif ffôn uchod i archebu eich tocynnau.

Yn gywir
Gwynn Davies
Cadeirydd
Antur Waunfawr
(01286 650721

Annwyl Olygydd

Ysgrifennaf i dynnu sylw at ymgyrch i sicrhau dyfodol yr wythnosolyn Cymraeg – *Yr Herald*.

Gyda chostau cynhyrchu a dosbarthu cynyddol, ynghlwm â chylchrediad isel, mae dyfodol y papur yn ansicr. Dim ond 1,500 o Gymry Cymraeg sy'n ei brynu bellach ac, yn anffodus, os na fydd y sefyllfa honno'n newid, fe allai'r papur ddiflannu.

Does neb eisiau gweld hynny'n digwydd, yn enwedig a'r iaith dan fygythiad parhaus o bob cyfeiriad.

Felly neges syml sydd gennyf: Os ydych yn un o'r 1,500 sy'n ei brynu, diolch i chi am eich cefnogaeth. Os nad ydych yn un o'r ffyddloniaid, gofynnaf yn garedig i chwi ystyried ei brynu.

Gwell fyth fyddai archebu *Yr Herald* yn eich siop leol bob wythnos, neu danysgrifio i'w dderbyn trwy'r post am £25 y flwyddyn (Ffoniwch Barbara Thomas ar 01286 677887, neu Tudur Huws Jones ar 01286 671111 am ragor o fanylion).

Darllenwch y papur, a gadewch i ni wybod beth yw eich barn amdano – da neu ddrwg. Byddwn yn croesawu'ch sylwadau, a'ch syniadau.

Gyda'n gilydd sicrhawn ddyfodol *Yr Herald*.

TUDUR HUWS JONES
Golygydd yr Herald

Cyfeillion Ysgol Brynrefail. RAFFL HAF. A fuasai Tom – Ffôn: 6740?? – daliwr tocyn raffl rhif 0235 yn cysylltu â'r Trysorydd, Mr Selwyn Lloyd, ar 01286 675359 mor fuan â phosib.

DIOLCH

Annwyl Olygydd,
Caredigrwydd Pentref

Bu rhaid imi fod i ffwrdd o'm cartref am rai wythnosau dan lawdriniaeth feddygol. O ddod adref, cerdded i mewn a gweld môr o liwiau llachar tlws yn yr ardd tu allan i'r tŷ.

Na, nid fi a'u plannodd. Yn hytrach cymydog caredig. Roedd wedi llenwi pedwar potyn pridd yn llawn blodau lliwgar eithriadol: piws, coch a gwyn. Dyma gymydog o ddifrif – fedrwn i wneud dim ond rhyfeddu a DIOLCH.

Di-enw
Llanrug

RHODDION

£20: Dr Elwyn James, Llundain (a Bryn Mair, Llanrug).

£15: Mr Emrys Owen, Solihull

£10: Mr Cledwyn Parry, Glyder, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Mrs Edith Ellis, Min y Nant, Waunfawr er cof am ei chwaer Grace Thomas; Arthur a Dilys Jones, 12 Hafan Elan, Llanrug; Teulu Sycharth, Penisarwaun a Theulu Pen-y-groes.

£5: Margaret Griffiths, 7 Llainwen Isaf, Llanberis; Mrs Lily Aubrey Horman, Venice, Llanrug; Teulu Ty'n Llidiart, Waunfawr; Iolo Eilian, 3 Bryn Moelyn, Llanrug; Mrs Gladys Roberts, 27 Hafod Oleu, Deiniolen; Clara, Bwlch Uchaf, Deiniolen; Teulu y diweddar Mr O.Thomas, Mona House, Deiniolen.

£3: Mrs Bet Jones, Lyndale, Llanrug; Eirian a'r teulu, Stryd Newydd, Deiniolen; Margaret ac Ellis Wyn, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen.

£2: Mrs Sally Roberts, Lorne House, Llanberis.

£1: Derfel ac Anita.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

Cydnabod Rhagoriaeth Cylch Meithrin Waunfawr

Plant Ysgol Feithrin Waunfawr yn eu parti diwedd tymor.

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn hynod falch o gyflwyno i Gylch Meithrin Waunfawr sêl 'Y Cylch Rhagorol', sef tysytysgrif sy'n cydnabod rhagoriaeth ym myd gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol.

Sefydlwyd cynllun 'Y Cylch Rhagorol' gan Mudiad Ysgolion Meithrin i achredu ansawdd a chydnabod rhagoriaeth y ddarpariaeth a gynigir gan gylchoedd meithrin.

Dywedodd Mai Roberts, Cadeirydd Mudiad Ysgolion Meithrin:

'Mae pwysau cynyddol yn cael ei roi ar ddarparwyr gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar i ddangos tystiolaeth o ansawdd uchel eu gwasanaeth a'u gofal. Gwyddom fod llawer o'n cylchoedd yn darparu gwasanaeth rhagorol, ond hyd yn hyn ni fu modd gennym i gydnabod hynny yn genedlaethol. Rydym yn hynod falch o gyflwyno'r sêl Cylch Rhagorol i Gylch Meithrin Waunfawr.'

I dderbyn sêl 'Y Cylch Rhagorol' asesir y cylch gan arolygwyr proffesiynol, annibynnol sydd yn cymryd i ystyriaeth holl agweddau'r Cylch Meithrin gan gynnwysy bobl, yr amgylchedd a'r profoiadau a gynigir i'r plant yn eu gofal. Bydd Cynllun 'Y Cylch Rhagorol' yn cydnabod yr elfennau arbennig hyn sy'n cyfuno i greu cylch o ansawdd rhagorol.

Dywedodd Wendy Thomas /Nia Griffith, Arweinydd Cylch Meithrin Waunfawr:

'Rydym yn falch iawn o'r anrhydedd arbennig yma; mae'n golygu llawer i bawb sy'n ymwneud â'r Cylch – y staff, y rhieni a'r gwirfoddolwyr ar ein pwyllgor. Mae'r plant wrth gwrs yn mwynhau dod yma i ddysgu a chael hwyl trwy chwarae yn y Gymraeg. Mae'n bwysig iawn i gael cydnabyddiaeth genedlaethol am yr holl waith da, a'r safonnau uchel a gynigir yma. Bydd derbyn sêl 'Y Cylch Rhagorol' yn ein galluogi ni, a chylchoedd eraill a fydd yn derbyn yr un anrhydedd, i gael cydnabyddiaeth genedlaethol, a danogs i rieni a darpar rieni ein bod yn cynnig gwasanaeth rhagorol i'w plant.'

Atodiad Waunfawr

MERCHED Y WAWR. Bydd tymor newydd y Gangen yn dechrau nos Iau, Medi 27 am 7.30 yn y Ganolfan. Y wraig wadd fydd Margiad Roberts o Dudweiliog yn darllen o'i gwaith 'Dyddiadur Gwraig Fferm'. Sicrhawyd ei gwasanaeth o dan nawdd cynllun 'Awduron ar Daith' yr Academi. Edrychwn ymlaen am noson ddifyr a hwyliog iawn yn ei chwmni ac mae croeso mawr i gyn-aelodau ac i aelodau newydd ymuno â'r Gangen. Mae rhaglen ddiddorol iawn wedi'i threfnu ar gyfer y tymor.

Llyfr Lloffion a Ysgrifenwyd yng Ngherbyd Trên Gladstone a'r Frenhines Fictoria

Yn ddiweddar cyflwynwyd llyfr arbennig iawn i Amgueddfa /Llyfrgell Antur Waunfawr. Crëwyd y llyfr lloffion gan gangen Waunfawr o Sefydliad y Merched yn ôl ym 1966, fel rhan o gystadleuaeth i ddathlu pen-blwydd y Sefydliad yn 50.

Penderfynodd aelodau'r gangen mai llyfr uniaith Gymraeg fyddai un Waun, gyda chyfieithiad o unrhyw gyfraniad Saesneg.

Ffurfiwyd pwyllgor gwaith i'r prosiect, sef y didweddar Mrs M. Morgan Jones, Pant Cae Haidd; Mrs J. Forbes, Whitegates; Mrs Idris Jones, Mrs Mary Vaughan Jones, Mrs Brown, y ddiweddar Mrs Morley Williams, Mrs R. E. Jones a Mrs Caldicot.

Gwnaethpwyd llawer o waith ymchwil ar hanes Waunfawr gan Mrs Mary Vaughan Jones a darganfyddwyd fod hen gerbyd trên oedd gan Mrs Morley Williams wedi cael ei ddefnyddio gan y Prif Weinidog, Mr Gladstone a'r Frenhines Fictoria pan yn ymweld â'r ardal.

O'r chwith i'r dde: Nancy Buckley, Trysorydd Sefydliad y Merched Waunfawr, Menna Jones, Prifweithredwraig Antur Waunfawr, Ann Williams, Ysgrifennydd SyM, Waunfawr a Mair Williams, Cadeirydd SyM, Waunfawr

Gwahoddwyd pwyllgor gwaith y llyfr i ddefnyddio'r cerbyd i gynnal eu cyfarfodydd.

Enillwyd y wobr Sirol gan y llyfr, sydd yn llawn o bytiau diddorol, yn cynning portread tu hwnt o ddiddorol a manwl o Waunfawr yn y cyfnod.

Wrth bori trwy'r llyfr cewch gipolwg ar bynciau amrywiol. Ymysg y tudalennau cewch weld y 'map iaith' sy'n dangos pa deuluoedd yn Waunfawr oedd yn Gymru, a pha rai oedd yn Saesneg yn y cyfnod.

Mae gwybodaeth am siopau'r ardal, ac arolwg o ba nwyddau oedd yn gwerthu orau. Coeliwch neu beidio roedd Cymry'r ardal gyda thueddiad i bryniau tuniau gerllyg, a'r Saeson duniau eirin gwlanog!

Bydd y llyfr yn cael ei gadw'n ddiogel yn Llyfrgell yr Antur yn y Tŷ Capel, ac mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â'r Antur os ydynt yn awyddus i'w weld.

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

Bydd tymor newydd y Cylch Llenyddol yn agor nos Fawrth, Medi 18 yng nghwmni'r Prif Lenor Elfyn Pritchard, enillydd y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. 'Trwy'r Tywyllwch' fydd testun ei sgwrs, a dyna deitl y nofel a enillodd ganmoliaeth uchel gan y beirniaid. Mae croeso i bawb ddod i wrando arno a thrafod ei waith.

Mae rhaglen y tymor yn cynnwys darlithoedd a sgyrsiau gan Jon Meirion Jones, Hafina Clwyd a Dylan Iorwerth. Cynhelir y cyfarfodydd am 7 o'r gloch ar drydedd nos Fawrth y mis yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £6, neu £1.50 am ddarlith achlysurol. Croeso cynnes iawn i bawb. Am ragor o fanylion a'r rhaglen lawn, cysylltwch â'r Ysgrifennydd ar (01286) 674478.

Alwyn a Sarah Jones

BLODAU

RACCA

PENISARWAUN

Blodau ar gyfer pob achlysur

Dewis da o Lysiau Fferm

Wyau *Free Range*

Ar agor saith diwrnod

870605

Danfon 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

O SIAMBAR SELWYN

Wel ia, dyna un arall trosodd. Sut un oedd hi? Oedd hi'n steddfod gofiadwy? Oedd, siŵr iawn, tydi pob un yn aros yn y cof am ryw reswm neu'i gilydd. Steddfod y mwd? Steddfod ofn y clwy? Steddfod y protestiadau? Ia, digon teg, ond mae'n well gen i ei chofio fel Steddfod y croeso cynnes a Steddfod arall y byddwn yn cyfeirio ati fel Steddfod hanesyddol, a Steddfod lwyddiannus.

Rwy'n falch iawn am lwyddiant yr Ŵyl dan arweiniad fy hen gyfaill Eifion Lloyd Jones (a Leah wrth gwrs). Mi ges i y fraint o gydweithio hefo Eifion mewn sawl Eisteddfod yn y gorffennol – ac roedd rheiny yn Steddfodau cofiadwy hefyd, am resymau gwahanol wrth gwrs.

* * *

Steddfod Hanesyddol oherwydd i ni gael cadeirio merch am y tro cynta erioed, a chyfle i'r Archdderwydd, am y tro cynta erioed, gael cusanu prifardd. Mi alla inna eich sicrhau chi i mi afael yn dynn amdani wrth i mi ei harwain i'r llwyfan i gael ei chadeirio. Oedd roedd hi'n foment hanesyddol yn hanes ein prifwyl, ac yn awr fythgofiadwy i Mererid. Pwy fydd y nesa? – *Hilma Lloyd Edwards, Nia Powell ? ? ?*

'Mor agos ond eto mor bell' ydi'r profiad o fod yn ail am y Goron. Gallaf ddweud hyn yn onest gan i mi gael y profiad ar ddau achlysur. Roeddwn i'n hynod falch fod Gwyn Thomas yn awyddus i goroni cerdd un o'm cyfeillion pennaf – *Geraint Lloyd Owen*. Mi wn i ei fod yntau yn falch hefyd, ond gwn o brofiad hefyd am y siom a lechai yn ei galon. Mae cerdd Geraint (Maen Eryr) yn gerdd amserol – cerdd a gyfansoddwyd o fewn llai na mis, sy'n sôn am glwy'r traed a'r genau. Gobeithio'n wir y gwêl olau dydd yn y dyfodol agos.

Roeddwn i hefyd yn hynod falch o weld un arall sy wedi meithrin ei thalent yn ein heisteddfodau lleol yn dod i'r dosbarth cyntaf eleni eto yng nghystadleuaeth y Goron. Yn cuddio tu ôl i'r ffug-enw 'Y Gwyliwr yn y Dŵr' roedd *Karen Owen* o Ben-y-groes – Golygydd *Golwg*.

Y llynedd yn Llanelli oedd y tro cyntaf i Karen gynnig am y Goron Genedlaethol, ac fel eleni, fe ddaeth i'r dosbarth cynta. Mae gan Karen ddychymyg byw iawn ac yn ei dilyniant mae hi, drwy weledigaeth pysgodyn aur, yn edrych allan ar y byd trwy 'Furiau' gwydrog, ac yn sylwi ar broblemau'r byd modern (*Muriau* oedd y testun a osodwyd yng nghystadleuaeth y Goron).

Mae angen tipyn o lwc yn ogystal â dawn i ennill y Goron, gan fod 'na dipyn mwy yn cystadlu am y Goron nag sydd am y Gadair.

Yn sicr mae'r ddawn gan Geraint a Karen i'w hennill – gobeithio y cânt eu cyfran o lwc hefyd yn y dyfodol agos.

Llongyfarchiadau ychwanegol i Karen am iddi ennill y gystadleuaeth 'Casgliad o sgyrsiau ar dâp yn arddull a hyd "Dros Fy Sbectol".' Fel yr awgrymais mae Karen a Geraint fel amryw eraill sy'n anelu at brif wobrwyon yr Eisteddfod Genedlaethol, wedi bod yn gystadleuwyr ffyddlon yn ein heisteddfodau lleol dros y blynyddoedd a dwi'n gwybod bod eu dyled hwythau fel finnau yn fawr i'r eisteddfodau hyn.

Roeddwn i'n falch o glywed Dorothy Jones, wrth feirniadau Cystadleuaeth Llwyd o'r Bryn, yn apelio ar i eisteddfodwyr gefnogi yr eisteddfodau bach. Anaml iawn y bydda i yn gweld pwysigion ein prifwyl yn mynychu ein heisteddfodau llol. Pam ys gwn i? Oni bai am eisteddfodau lleol pentrefi cefn gwlad Cymru fyddai na ddim Gŵyl Genedlaethol Flynyddol i ni fynd iddi. Diolch Dorothy.

Llongyfarchiadau cynnes i *Dafydd Guto Ifan*, Bethel am ei lwyddiant mewn cystadleuaeth ddiddorol, sef 'Casgliad o bytiau yn ymwneud â llys-enwau, i lenwi bylchau mewn papur bro'. Edrychwn ymlaen at weld ffrwyth ei lafur yn yr *Eco*.

Dafydd Guto, fel Karen Owen, Hilma a Geraint yn un o'r rhai rydw i wedi cael y fraint o'u cadeirio mewn eisteddfodau lleol dros y blynyddoedd.

* * *

Ydi, mae'r lecsiwn trosodd hefyd. Y tro cynta 'rioed i Archdderwydd gael ei ddewis drwy ffordd ddemocrataidd. Diolch i gefnogwyr ein heisteddfodau lleol am iddynt fy enwebu i ar gyfer y 'barchus, arswydus swydd', a llongyfarchiadau cynnes i Robyn am ei fuddugoliaeth – roedd o wedi gweithio'n galed i gael y swydd. Pob dymuniad da iddo – yr ail brif-lenor i fod yn Archdderwydd Cymru.

* * *

Do, mi fuo 'na brotestio hefyd, ynglŷn â'r mewnlifiad a'r broblem ieithyddol sy'n wynebu ein hardaloedd gwledig. Oes ganddon ni broblem ym Mro'r *Eco*? Y cyfan a dd'weda i wrth gloi drws y Siambar ydi – **pan fyddwn chi'n mynd heibio ambell ysgol, a'r plant yn chwarae ar y buarth – CLUSTFEINIWCH.**

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos Lun, Gorffennaf 2 dan nawdd y Sefydliad lleol cynhaliwyd Sioe Ffasiynnau Iwyddiannus iawn yng Ngwesty Fictoria Llanberis. Arddangoswyd dillad ieuenctid a merched Jacquinta, Crefftau Cae Coch, Teithiau Peris, Coluro gan Top to Toe a gwisgoedd priodas gan Carol Houston. Cyflwynydd y noson oedd Gwyn Parri, Deiniolen a Pat Jones oedd yn gyfrifol am y trefniant blodau. Yn ystod y noson mwynhawyd mefus, hufen a gwin gan yr oll oedd yn bresennol a chafwyd raffl lwyddiannus. Roedd elw'r noson o dros £400 yn mynd tuag at Sefydliad y Merched Brynrefail ac Ysgol Pendalar, Caernarfon. Cyflwynwyd y siec i Pendalar ar ran y gangen gan Mrs Jennie Hughes a Mrs Pat Jones.

Dymuna'r gangen ddiolch yn ddiffuant i bawb am eu cefnogaeth i'r noson.

Nos Lun, Gorffennaf 16 oedd noson y Trip Dirgel blynyddol. Eleni wedi taith gydag arfordir y gogledd cyrhaeddwyd Castell Bodelwyddan lle cafwyd gwasanaeth prif dywysydd y Castell i fynd â'r aelodau o gwmpas yr adeilad.

I orffen y noson cafwyd pryd o fwyd yng Ngwesty Bae Colwyn. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Medi 17 yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo.

LLONGYFARCHIADAU. Estynnwn Longyfarchiadau i Nia Oliver, Gors ar ennill gradd B.Add ym Mhrifysgol Bangor a phob dymuniad da i'r dyfodol yn ei gyrfa fel athrawes.

GWOBR GLYNDWR. Dydd Gwener, Awst 24 yn un o gyfarfodydd Gŵyl Machynlleth 2001, a gynhaliwyd yn Y Tabernacl, cyflwynwyd Gwobr Glyndwr i John Meirion Morris, Y griolen. Enillodd y wobr hon am ei Gyfraniad Arbennig i'r Celfyddydau yng Nghymru ac fe'i cyflwynwyd iddo gan y Proffesor Peter Abbs.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Y GYMDEITHAS. Cyfarfu'r aelodau yn y Festri nos Iau, Gorffennaf 19. Cadeirydd y noson oedd Mr Emyr Williams, Clwt-y-bont. Cymerwyd at y myfyrdod gan Mrs Verna Jones, Meillionen. Croesawodd y Cadeirydd un o aelodau'r Gymdeithas yn ŵr gwadd y noson, sef Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir. 'Pererindod tri theulu lleol i Tseina' oedd teitl ei sgwrs. Dechreuodd y daith yn Hong Kong ac yna ymlaen i ardal Gulin sy'n enwog am harddwch ei golygfa, yr afon Lin ac yna'r Milwyr Terracota yn Xian. Aeth y daith ymlaen i ardal Shanghai gan orffen gyda rhyfeddodau Beijing gan gynnwys y Wal Fawr. Cyfoethogwyd y sgwrs gan fideo a chafwyd cyfle i weld rhai celfi a gasglwyd ar y daith. Talwyd gair o ddiolch am noson ddiddorol gan Mr D.G. Ellis.

Mrs Dwynwen Williams a Mrs Bethan Lambert oedd wedi paratoi y lluniaeth.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Medi 13 pryd y disgwylir Mr Dafydd Whitreside Thomas i roi sgwrs.

TREFN OEDFAON MEDI.

2 Mrs G. Alwena Williams, Llanddona am 5.30 yr hwyr;
9 Parch Marcus Robinson, Bethel am 5.30 yr hwyr;
16 Mr Evan Jones, Bontnewydd am 10 y bore;
23 Parch Gareth Maelor Jones, Llanwnda am 5.30 yr hwyr;
30 Parch Dafydd Ll. Hughes, Caernarfon a.m 10 y bore.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: (01286) 650291

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Cymdeithas Y Plant (The Children's Society)
Ymwelwyr annibynnol
Oes gennych ddiddordeb mewn gwneud gwaith gwirfoddol gyda phlant a phobl ifanc?
Mae Cymdeithas y Plant yn chwilio am wirfoddolwyr dwyieithog i weithio fel Ymwelwyr Annibynnol gyda plant a pobl ifanc mewn gofal yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
Byddwn yn cynnwys asesiad gofalus ac hyfforddiant sy'n arwain at gymhwyster, goruchwyliaeth a chefnogaeh.
Os oes gennych ddiddordeb:
Cysylltwch a ni yma ar **0800 085 2274**

Un funud fach

CAU'R FFORDD

Mae'r arwyddion melyn wedi'n rhybuddio. Bydd llawer o ffyrdd y fro wedi eu cau fore Sul nesaf. Mae yna ras fawr i'w chynnal, a channoedd o athletwyr yn beicio a rhedeg am filltiroedd o amgylch ein hardal yn ogystal â nofio ar hyd Llyn Padarn. Mae Treiathlon y Dyn Cryf wedi cyrraedd,a bydd yma gyffro mawr.

Yn ôl pob sôn daw'r miloedd yma i wylio'r ras a bydd busnesau'r fro ar eu hennill yn sylweddol. Pob hwyl i'r cystadleuwyr i gyd, a gobeithio y daw pawb ohonynt drwyddi'n ddianaf. Mae dim ond meddwl am y ras yn ddigon i 'mlino fi'n lân.

Gobeithio na fydd cau'r ffyrdd yn peri gormod o drafferthion i ni'r trigolion lleol. Bydd ambell weinidog yn methu cyrraedd oedfa, ac ambell gynulleidfa, o bosibl, yn ddiolchgar am hynny! Bydd rhai yn gorfod cychwyn i'w gwaith yn y bore bach, a rhai yn ddigon balch o'r esgus i aros gartref. Mae'n debyg bod yna drefniadau arbennig wedi eu gwneud ar gyfer cerbydau argyfwng. Pe digwyddai bod angen rhuthro claf, dyweder o un o'n pentrefi i'r ysbyty, gobeithio na fydd trefniadau'r ras yn gwneud hynny'n anodd.

Ond mae meddwl am ein ffyrdd ynghau yn ein hatgoffa mor braf yw hi arnom fel arfer. Mae gennym ffyrdd sy'n mynd â ni'n rhydd a hwylus o fan i fan. Does neb yn ein rhwystro rhag mynd i ble y mynnon. Does dim deddfau'n dweud na chawn deithio ar oriau arbennig o'r dydd. Ac mi gawn deithio'n ddi-dâl ar y rhan fwyaf o ffyrdd ein gwlad. O gofio hynny dyw cau'r ffyrdd am dcirawr fore Sul ddim yn swnio'n rhy ddrwg.

Ond os byddwn yn teimlo'n rhwystredig fore Sul wrth fethu crwydro, beth am atgoffa'n hunain am ffordd sydd wastad yn agored. Iesu Grist ei Hun yw'r Ffordd at Dduw. Mae'n ffordd rydd a diogel, a bob amser yn agored i bobl ei cherdded. Ac unwaith y byddwn wedi troedio'r ffordd hon at y Tad does dim byd o gwbl a fydd byth yn gallu ein gwahanu oddi wrtho.

JOHN PRITCHARD

Rali Glyndŵr

2pm ddydd Sadwrn
15 Medi 2001
Y Gynulliad,
Caerdydd

DEWCH YNGHYD I FYNNU

DYFODOL I'N GYMUNEDAU CYMRAEG
A
DEDDF IAITH I'R GANRIF NEWYDD!

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg Penroc
Rhodfa'r Môr Aberystwyth Ceredigion
SY23 2AZ 01970 624501
swyddfa@cymdeithas.com
www.cymdeithas.com

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

YSGOL DOLBADARN

FFARWELIO. Daeth amser i ffarwelio y tymor yma efo Mrs Rhian Mortimer Roberts sydd wedi bod yn rhoi cymorth efo Addysg Arbennig ers llawer o flynyddoedd. Bydd chwith ar eich ôl Rhian a phob dymuniad da i chi yn Amlwch.

Diwedd y tymor roedd hi'n amser ffarwelio hefo 17 o blant Blwyddyn 6, bydd colled ar eu hôl hwythau. Pob lwc i chi ym Mrynrefail

TRIP LLUNDAIN

Am saith o'r gloch dydd Mawrth, Gorffennaf 10 roedd plant Bl. 6 Ysgol Dolbadarn yn cyrraedd y bws efo'u bagiau'n llawn yn barod i fynd i Lundain. Roedd hi'n drip hir yn para chwech awr, ac roedd pawb yn falch o gyrraedd Llundain. Roedd amser yn brin, felly, ar ôl cinio sydyn aethom i'r 'Natural History Museum'. Amgueddfa fawr yn llawn o sgerbydau deinosoriaid, roedd hi'n wych cael meddwl ein bod mor agos i sgerbwd deinosor iawn. Ar ôl rhyw awr dyma Mr Parry yn hel ni'n nôl at ein gilydd i gael cerdded i'r Albert Hall a Hyde Park. Parc anferth efo digon o le i chwarae ynddo.

Ar ôl te, cerddom trwy Gerddi Kensington i Plas Kensington. Plas mawr llydan, lle roedd y Dywysoges Diana yn arfer byw. Ar ôl diwrnod hir, a phawb wedi blino'n lân, aethom yn ôl i'r gwesty i gael cwsg hir cyn y bore. Roedd yna lawer o bethau i gael eu gweld dydd Mercher.

Ar ôl brrecwast y bore wedyn aethom i weld Abaty Westminster, Tŷ Cyffredin a Big Ben, i ddechrau y diwrnod. Y cloc uchel, enwog, roeddem wedi'i weld ar y newyddion yn aml. Wedyn aethom i weld yr Olwyn Fawr uchel, o'r enw London Eye. Aethom i gyd i un 'pod' ac roedd yr Olwyn yn mynd yn uwch ac yn uwch, nes roeddem yn gallu gweld Llundain i gyd. Roedd hi'n deimlad anhygoel bod ar dop y London Eye, gan ei fod mor uchel.

Yn nesaf aethom i weld Plas Buckingham a'r milwyr yn newid, neu y 'Changing of the Guards' yn dilyn hyn fe aethom i fewn trwy giatiau 10 Downing Street, sef tŷ Tony Blair. Yn Downing Street gwelsom Robin Cook yn cyrraedd ei waith a Leo Blair yn gadael y tŷ efo'i 'nanny'! Wedyn aethom i Sgwâr Trafalgar. Roedd y sgwâr yn llawn colomennod.

Aethom i'r Lyceum Theatre ar ôl cinio cyn diwedd y pnawn. Yn y fan yma gwelsom y Sioe Gerddorol Y Llew Frenin. Y sioe yma oedd y peth gorau ar y trip ym marn llawer o'r plant. Roedd y caneuon a'r gwisgoedd yn dda, roedd yn ddoniol ac roedd pawb wedi ei fwynhau. Ar ôl y sioe hir, aethom yn ôl adre ar ôl y trip fydd neb yn ei anghofio.

Tomos Parry

Ar ddydd Mawrth y 10fed o Orffennaf fe aeth blynyddoedd 3, 4, 5 Ysgol Dolbadarn ar drip i gastell Biwmares ac i Sŵ Fôr Môn ym Mrynsiencyn.

Cychwynnom am hanner awr wedi naw yn y bore ac fe gyrhaeddom tua deg o'r gloch. I ddechrau fe aethom ar hyd y lan môr wedyn i'r castell. Yn anffodus ni chwsom fynd i fyny i dop y castell oherwydd ei bod yn rhy beryglus. Ar ôl bod yn y castell am ryw awr a hanner aethom i gael ein cinio., Yn anffodus fe ddechreuodd y gwylanod ddwyn ein bwyd ond dechreuodd y glaw ddod felly roedd rhaid mynd am y bws.

Ar ôl i bawb orffen eu bwyd fe gychwynnodd y bws am Sŵ Fôn Môn. Ar ôl cyrraedd y Sŵ cafon fynd i edrych ar amryw o wahanol bysgod yn cynnwys Piranhas, ysliwenod môr a llawer mwy. Hefyd, fe gawsom gyfle i fynd i'r siop. Cafon ddiwrnod gwerth chweil, roeddem adref tua pum munud wedi tri.

Iwan Williams
Bedwyr Davies

Eglwysi Deiniolen yn Cofio'r Streicwyr

Cynrychiolwyr yr eglwysi a rhai o'r streicwyr

Cynhaliwyd bore coffi yn festri Ebeneser ar Sadwrn, Gorffennaf 21ain, er budd y gweithwyr a ddiswyddwyd yn ffatri Friction Dynamics, ger Caernarfon. Codwyd cyfanswm o £610. Dymuna pwyllgor y Cyngor Eglwysi ddiolch i bawb a gyfrannodd nwyddau i'r gwahanol stondinau, i'r rhai fu'n helpu ar y bore, ac i bentrefwyr Deiniolen a Dinorwig am eu cefnogaeth hael. Diolch am gael defnyddio festri Ebeneser i gynnal y gweithgaredd, ac i Mr a Mrs Donald Jones, y gofalwyr, am eu cymorth.

CWMNI THEATR GWYNEDD

yn cyflwyno

PISHYN

drama Martin McDonagh
(The Beauty Queen of Leenane)
Cyfieithiad Huw Roberts (Pwllheli)

gyda **Rhian Cadwaladr, Dewi Rhys, Valmai Jones** ac **Owen Arwyn**

Wedi ei lleoli yn Connemara, cawn stori Maureen Folan a'i mam Mag a'r berthynas dymhestlog sydd rhyngddynt. Ond daw cyfle i Maureen ddianc pan fo Pato Dooley yn cymryd dipyn o ffansi ati. Os ydych chi wrth eich bodd hefo stori dda mae'r ddrama Wyddelig yma yn epig o frwydr a breuddwydion wedi eu chwalu.

Theatr Gwynedd Bangor
(01248) 351708
Nos Wener, 28 Medi 7.30 (noson blaenweled)
Nos Sadwrn 29 Medi 7.30
Nos Fawrth-nos Sadwrn 2-6 Hydref 7.30
Gostyngiadau arbennig i bartïon

CHWILOTA

Ynys Cheuryn, Llanddeiniolen

Addewais y mis diwethaf roi mwy o hanes y fferm hon, yn ôl y nodiadau a anfonwyd i mi gan Mrs Sarah Kelly o Fangor. Roeddwn i hefyd wedi gobeithio gwneud rhywfaint o chwilota fy hun, ond aeth yr haf (neu o leiaf yr hyn a oedd yn arfer cael ei alw'n haf ers talwm) heibio heb i'r cyfle ddod. Ond cafwyd ymateb gan Eirwyn Williams, Llwyncoed, Cwm-y-Glo i hanes y fferm.

Yn ôl Mrs Kelly, mae'r enw 'Ynys Cheuryn' yn deillio o Ynys Cynheuryn, sef enw personol, ond does dim dichon darganfod pwy oedd hwnnw erbyn hyn. Mae'r gair 'ynys' wrth gwrs, yn golygu llain o dir ffrwythlon yng nghanol tir llai ffafriol neu gorsdir, ac i'r rhai sy'n gyrru o gyfeiriad Deiniolen i lawr am Groeslon Tŷ Mawr, gellir gweld hyd yn oed heddiw fel mae'r tir yn yr ardal yn amrywio o ran ansawdd y tyfiant. Mae'n debyg mai tir anial iawn oedd hwn yn wreiddiol, ac i drigolion cynnar trefgordd Dinorwig ddiwyllio rhannau neu leiniau o dir a chreu 'ynysoedd' o dir ffrwythlon yng nghanol y corsdir, gan enwi'r gwahanol 'ynysoedd' ar ôl eu perchnogion neu eu tenantiaid. Dyna roes fod hefyd i Ynys Iago yn yr un cyffiniau.

Gair gwneud a ddatblygodd yn llawer diweddarach yw Ynys Llecharian neu Ynys Llecheuryn.

Mae Mrs Kelly hefyd yn nodi iddi gael ar ddeall fod dogfen yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth yn cofnodi cysylltiad rhwng y fferm ac Eglwys Llanddeiniolen – rywdro yn ystod oes Elisabeth Iaf – a bod peth o gynnyrch y fferm a'i helw yn mynd tuag at gynnal yr eglwys. Bydd angen mwy o waith ymchwil i gadarnhau hyn.

Roedd perthnasau i Eirwyn Williams, Llwyncoed yn byw yn y fferm ers talwm. Mae'n bosibl mai'r John Williams a gofnodir yng Nghyfrifiad 1891, ac a oedd yn byw yno efo'i ddau frawd a'i chwaer – i gyd yn ddibriod – oedd y rhain. O leiaf, roedd perthnasau Eirwyn Williams yn cael eu cyflogi gan Samuel Jones, Melin Glandinorwig, yng Nghlwt y Bont. Eu gwaith oedd cario llechi ysgrifennu gorffenedig o'r Felin (Melin Sam ar lafar) i'r cei yn Y Felinheli, a hynny gyda cheffyl a throl. I'r mwyafrif o gertwyr y cyfnod hwnnw, byddai'r daith yn ôl yn golygu trol wâg, ond nid felly yn achos y brodyr o Ynys Cheuryn. Gofalai Samuel Jones, a oedd yn ŵr busnes craff iawn, fod llond y troliau'n dod yn ôl i Glwt y Bont hefyd, sef pridd. Byddai'r rhan fwyaf o'r llongau a deithiai i mewn ac allan o borthladd Y Felinheli yn cario 'ballast', a phridd fyddai hwnnw fel arfer; pridd o wahanol borthladdoedd led-led y byd. Pan fyddai'r llongau'n cael eu llwytho â llechi, byddai angen cael gwared â'r 'ballast', ac yn achos certwyr Samuel Jones, byddai'r pridd o'r llongau yn cael ei gario'r holl ffordd yn ôl i Glwt y Bont a'i wasgaru ar gaeau oedd yn ei feddiant. Y caeau rheini yw'r rhai anferth o fawr sy'n ymestyn o waelod Gallt Sam i fyny i gyfeiriad y Rhiwen. Dywedir fod pridd o ddegau o wledydd gwahanol o'r byd ar y caeau rheini. Byddai'r gweision wrthi'n brysur yn gwasgaru a lledaenu'r pridd hyd y caeau gynted ac y cyrhaeddai'r certwyr yn ôl o'r Felinheli.

Dyna, yn ôl pob sôn pam fod wal uchel rhwng y caeau a Gallt Sam. Mae'n parhau yno heddiw, ar yr ochr chwith o'r ffordd wrth ddringo tua Deiniolen. Yma ac acw yn y wal mae tyllau sgwar. Dywedir fod Samuel Jones yn gallu cerdded i fyny'r allt heb i'r gweision yn y caeau ei weld (oherwydd uchder y wal) ac edrych trwy'r tyllau i wneud yn siŵr fod pawb yn tynnu ei bwysau! Dyna'r stori yn ôl Eirwyn Williams, ond os gwyddoch yn wahanol, rhowch wybod.

Llysiau Bendithiol.

Gan Mrs Lockett o Frynrefail y daeth y sylwadau diweddaraf ynglŷn â llysiau bendithiol, a hynny yn dilyn ymateb Mrs Alfona Jones i lyfr Nicholas Culpepper ar lysieuaeth feddyginiaethol. Mae hi'n cynnig eglurhad ar gynhwysion y rysait sydd fymryn yn wahanol i'r hyn gafwyd eisoes. 'Bay leaf' oedd cynnig Mrs Jones am ddail cwrw, ond mae Mrs Lockett yn awgrymu mai 'hopys' ydynt, sef dail y planhigyn a ddefnyddir i fragu cwrw. Mae Mrs Lockett hefyd yn cynnig eglurhad ar y gwêr eidion a'r saim traed defaid. Daw'r saim traed defaid o'r braster ar goes oen neu ddafad, a'r un modd gyda'r gwêr eidion. Dywed Mrs Lockett mai cŵyr gwenyn a ddefnyddir bellach yn hytrach na gwêr eidion.

Roedd nain Mrs Lockett, a oedd yn byw yn y Muriau Gwynion, (ble daw afon Fachwen i lawr i Lyn Padarn), hefyd yn defnyddio'r gwahanol lysiau a blodau gwylltion a dyfai ar y llethrau o gwmpas ei chartref i wneud meddyginiaethau. Yn anffodus, medd Mrs Lockett, ni chafodd gwybodaeth ei nain ei drosglwyddo i'w merch a'i wyres.

Oes botanegydd all dorri'r ddadl ynglŷn â beth yn hollol yw dail cwrw?

Llyfr Cofnodi Marwolaethau Llanberis

Derbyniais gopi gan Eifion Roberts, Becws Eryri, Llanberis, o restr marwolaethau yn Llanberis am y cyfnod o 1883 hyd 1887. Mae'n ymddangos mai rhestrau sydd yma o farwolaethau yn y pentref o bobl a allai fod yn aelodau o Gymdeithas Gyfeillgar.

Weithiau, nodir ble buont farw ac o dan pa amgylchiadau. Rhoir oedran rhai ohonynt – y rhai hynaf fel arfer, a cheir cofnod hefyd o ble cawsant eu claddu. Weithiau, nid yw enw'r person a fu farw yn cael ei gofnodi, dim ond nodi eu bod yn ferch neu fab i rywun, neu hyd yn oed nodi eu gwaith.

Er enghraifft, yn Awst 1883 cofnodir i Owen Owens, Fron Goch gael ei gladdu yn Garndolbenmaen, a bod Evan Jones, Ceunant wedi ei ladd yn y chwarel. Ddiwedd y mis cofnodir marwolaeth morwyn Glan y Bala (dim enw) – wedi marw *'yn y gwely heb neb yn gwybod'*. Ym mis Hydref o'r un flwyddyn cawn fod *'chwaer Pierce Jones, Gwaith Main'* wedi marw ym Mangor, ond ei chladdu yn Llanberis, a bod *'gwraig Thomas Evans, Gellihirbant wedi marw yn Llundain a'i chladdu yn Llanrug.'* Byddai'n ddiddorol cael gwybod beth oedd hi'n ei wneud mor bell oddi cartref.

Ym mis Medi 1884 ceir cofnodion (heb eu rhifo, ac felly'n amlwg heb fod yn aelodau) o 'ledis o London' yn marw yn nhŷ Mrs Owen, Snowdon View; *a 'gŵr diarth yn cael ei ladd ar ben yr Wyddfa gan y mellt o Lancester.'* Y gŵr dieithr oedd o Lancaster, mae'n amlwg, ac nid y mellt!

Cawn gyfle i bori yn y rhestrau eto'r mis nesaf.

Pwy oedd Dewi Orwig?

Daeth cais am unrhyw wybodaeth ynglŷn â Dewi Orwig neu David Owen neu David J. Owen. Mae'n ymddangos ei fod yn wreiddiol o ardal Dinorwig, ond iddo dreulio peth amser yng nghyffiniau Blaenau Ffestiniog (tua 1889-1893). Roedd yn fardd, ac enillodd gystadleuthau ar lunio englynion mewn eisteddfodau lleol yn Llanrug a Llanddeiniolen. Tybir iddo fod yn gweithio ym Melin Sam yng Nglandinorwig, ond iddo hefyd fod yn byw (os nad yn gweithio) ym Melin Crawia, Llanrug. Roedd y ddiweddar Mrs Mary Lloyd Williams (Mari Lewis) yn sôn am Ddewi Orwig yn byw yn y Crawia, ac yn cerdded moch i fyny ar hyd y rheilffordd i Stesion Pontrhythallt i'w gwerthu. Tybir iddo farw tua 1920-21 a'i gladdu yn Llanrug. Mae posibilrwydd fod yna ddau Dewi Orwig, ac felly rhaid ceisio gwahaniaethu rhyng-ddynt.

Byddwn yn falch o dderbyn unrhyw wybodaeth amdano, neu ar unrhyw destun arall yn ymwneud â hanes lleol bro'r 'Eco'. Anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn : 01286 673515).

Royal Victoria Hotel
LLANBERIS
Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer
PRIODASAU - PARTÏON - DATHLIADAU ac ACHLYSURÓN ARBENNIG
CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a PHWYLLGÓRAU
BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL
Ffôn: (01286) 870253

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill
Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

LLONGYFARCHIADAU i'r canlynol ar lwyddo mewn arholiadau chwarae piano y Bwrdd Arholi Brenhinol yn ddiweddar: Gethin Wyn Griffiths, Dolserau, Stad Eryri, Gradd 1 gyda theilyngdod a Ffion Williams, Gradd 4.

YSGOL SUL Y CYSEGR. Roedd nifer dda o blant y Cysegr wedi mynychu Sbri yr Ysgolion Sul, Henaduriaeth Arfon yn ddiweddar yn Ysgol Brynrefail. Angharad Tomos oedd y wraig wadd a chafwyd ganddi anerchiad difyr a phwrpasol i'r holl blant cyn iddynt gael eu rhannu i'r amrywiol weithgareddau megis gemau, crefftau, dawnsio gwerin, canu a gwrando ar stori. Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn ar ôl y gwyliau ar Fedi 3.

EISTEDDFOD. Mae testunau'r Eisteddfod am eleni ar gael yn Swyddfa'r Post a Siop Treflyn a bydd pob plentyn yn derbyn copi trwy'r Ysgol ar ddechrau mis Medi. Cynhelir y Noson Dawnsio ar nos Iau, Tachwedd 1, a gofynnir i'r holl waith crefftau fod i mewn erbyn dydd Gwener, Tachwedd 2. Bydd y cystadlaethau Llwyfan ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 3. Os oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu yn ariannol tuag at gost yr Eisteddfod cysylltir â'r Trysorydd, Rhys Harris, Tyddyn Andrew Uchaf, (671430), neu'r Llywydd, Rita Wililams, Elan (670601).

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £268.81 ym Methel gan aelodau o Ferched y Wawr, sef Mair Read, Rita Williams, Nora Parry, Sheila Roberts, Rhian Hughes, Nan Rowlands, Delyth Williams, Alice Jones, Nancy Williams, Gwyneth Price ac hefyd Maldwyn Hughes. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

CYDYMDEIMLO. Ar Mehefin 22 yn 99 mlwydd oed yn dawel yng Nghartref Preswyl St Teilo bu farw Mrs Kate Thomas, gynt o 22 Ffrydlas Road, Bethesda, gwraig y diweddar Mr Francis Puller Thomas, mam annwyl Idris, Mair, Bob, Nesta a Jean a nain, hen nain a hen-hen nain hoffus.

Cynhaliwyd gwasanaeth preifat yn y Cartref ac yn dilyn yn gyhoeddus yn yr Amlosgfa ym Mangor. Cymerwyd y gwasanaethau gan y Parchedig Gwynfor Williams, Mr Robin Coetmor Williams a Vicar Ann Smithans. Trefnwyd yr angladd gan Mr E.W. Pritchard, Llanberis.

DIOLCH. Dymuna Ceris Williams, 1 Tan y Cae ddiolch o galon i ddisgyblion, athrawon a staff y gegin ysgol Bethel am bob caredigrwydd a chyfeillgarwch yn ystod ei chyfnod yn gweithio yn y gegin ac, yn arbennig, ar achlysur ei hymddeoliad ym mis Gorffennaf.

Y NEUADD GOFFA. Nos Wener, 14 Medi am 7 o'r gloch yn y Neuadd cynhelir noson Bingo i ail lansio'r Clwb 100. Croeso cynnes i bawb. Bydd gwobrau hael yn y Bingo ac fe dynnir gwobrau cyntaf y Clwb 100 newydd.

Diolch i bawb sydd wedi ymaelodi o'r newydd ond os oes unrhyw un arall am ymaelodi cysylltwch â'r cynrychiolydd lleol sydd a'i enw/henw ar y llythyr gwahoddiad a ddosbarthwyd yn ddiweddar.

CYMANFA GANU EGLWYS LLANDDEINIOLEN. Nos Sul, Medi 16 am 7 o'r gloch yn Eglwys Llanddeiniolen cynhelir Cymanfa Ganu yng nghwmni Côr Merched Lleisiau'r Gweunydd gyda'r elw at gronfa cynnal y fynwent. Estynnir croeso i bobl holl bentrefi'r plwyf i'r noson hon o fawl a chân. Pris Mynediad fydd £1.

MERCHED Y WAWR. Mae'n fis Medi unwaith eto ac yn amser dod at ein gilydd i ddechrau ar flwyddyn arall o weithgaredd fel cangen. Bu'r pwyllgor wrthi'n ddyfal yn trefnu rhaglen amrywiol ar ein cyfer gan ddechrau ar nos Fercher, Medi 12 hefo 'Twrio ym Methel' yng nghwmni Simon Bowyer.

Chwiliwch am yr hen blât gawsoch ar ôl eich nain, y teclyn nad oes gennych syniad i be mae o'n da neu'r fargen gawsoch chi yn y sêl cist car a dewch a nhw draw i'r ysgol erbyn 7.30 i ddarganfod a oes gennych chi drysor go iawn.

Edrychwn ymlaen i weld y 'yr hen wynebau' a bydd croeso arbennig i aelodau newydd.

Rydym yn lwcus iawn ym Methel o gael cymaint o Gymry yn cartrefu yn y pentref a buasem wrth ein bodd yn cael cwmni nifer dda ohonoch yn ein cyfarfodydd. Dewch i'r cyfarfod cyntaf i weld beth sydd gennym i'w gynnig. Bydd cyfle i'r rhai sydd â diddordeb ymaelodi, ac wedi gorffen twrio cawn baned a sgwrs (dowch a chwpan a phlât hefo chi os gwelwch yn dda).

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir yr eisteddfod eleni ar brynhawn a nos Sadwrn, Tachwedd 3 yn y Neuadd Goffa am 12.30 a 6 o'r gloch. Bydd cystadlaethau'r dawnsio yn cael eu cynnal ar nos Iau, Tachwedd 1 am 6 o'r gloch.

Mae'r cystadlaethau yn gyfyngedig i'r canlynol – plant sy'n byw ym Methel, Seion a Llanddeiniolen ac unrhyw gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Bethel.

Bydd pob plentyn yn yr ysgol gynradd yn cael copi o'r testunnau ac mae rhai ar gael hefyd yn Siop Treflyn a'r Swyddfa Bost.

Mae'r cystadlaethau'n amrywiol iawn – ar wahân i'r canu, llefaru a dawnsio mae dewis eang yn yr adran gwaith llaw yn cynnwys collâge, ffotograffiaeth, gwaith tecstiliau a graffeg cyfrifiadurol. Rhywbeth at ddant pawb!

Llên Oed Uwchradd: Unrhyw ddarn o ryddiaith neu farddoniaeth ar destun a chyfrwng o ddewis yr ymgeisydd. *Brawddeg* o'r gair GEIRIADUR yn agored i bawb (plant ac oedolion)

PWYSIG. A fydd pawb sy'n dymuno ymuno mewn partïon–canu, llefaru, dawnsio disgo a gwerin (cynradd ac uwchradd) gystal â dod i Neuadd yr Ysgol Gynradd dydd Llun, Medi 10 rhwng 3 a 4 o'r gloch. Os na allwch ddod i'r neuadd y diwrnod yma ac yn awyddus i ymuno, cysylltwch â Rita (670601) neu Rhian (670036) cyn gyntad ag y bo modd.

Os oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu tlws neu wobr, bydd Rita, Eirlys neu Rhys yn ddiolchgar o'u derbyn.

CARTREF PRESWYL ST. TEILO. Mae ein dyled ni yn y Cartref i Robin Jones, *Age Concern* yn mynd yn fwy o hyd. Yn ddiweddar fe drefnodd i'r preswylwyr a'r rhai sydd yn cael gofal yn y Cartref yn ddyddiol i fynd i gyngerdd yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon i glywed genethod ifanc talentog yn chwarae'r ffidil. Hefyd cafwyd trip i Westy Meifod, Bontnewydd lle y cafwyd mwyniant mawr yn gwrando ar gantorion o'r Cwmni Opera Cenedlaethol gyda phaned a bisgedi yn dilyn. Diolch i Robin am gofio amdanom.

Cafwyd dau brynhawn difyr yn y Cartref pan ddaeth cynrychiolwyr o Astonia yn dangos dillad ffasiynol a Body Siop gydag eitemau yn arogli yn fendigedig. Diolchwn iddynt am roi eu hamser.

Fe erys yr antur ar y trên bach oddi amgylch Llyn Llanberis yn hir yng nghof y preswylwyr. Hoffwn ddiolch i'r staff a aeth a hwy.

Bu'r bererindod i Pringles, Llanfairpwll i siopa yn brynhawn difyr hefyd.

Gwerthfawrogodd rhai o'r preswylwyr a gafodd y cyfle i fynd i wrando ar Barti Hogia'r Ddwylan yn ymarfer ym Mhorthaethwy cyn mynd i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a'r Cylch. Roedd llwyddiant y côr yn dod yn fuddugol yno wedi ysbrydoli'r preswylwyr a bu mawr siarad am eu buddugoliaeth.

Ymunodd dau o'r preswylwyr gyda Chlwb Pensiynwyr Bethel am fwyd yn y Bedol ym Methel.

Profiad diddorol arall gafodd y Cartref oedd cael mynd am drip i Aberdaron yng nghwmni Clwb Pensiynwyr Bethel. Roeddem yn hynod ddiolchgar o'r cyfle.

LLONGYFARCHIADAU A DYMUNIADAU GORAU. Unwaith eto mae wedi dod yn amser i longyfarch plant y pentref ar eu llwyddiant yn eu harholiadau yn yr ysgol ac yn y colegau. Mae ansawdd y canlyniadau bob amser yn glod i ieuenctid y pentref. Dymuniadau gorau hefyd i'r plant sydd yn dechrau mewn ysgol a choleg o'r newydd ym mis Medi ac i'r ieuenctid hynny sy'n dechrau ar eu gyrfa waith.

CLWB 100 CLWB PÊL-DROED. Cafwyd ymateb da gan y pentrefwyr a gwnaed y dewis cyntaf. Yr enillwyr oedd: £100: Colin Roberts (41); £50: Myrddin Bardsley (96); £25: Harold Owen (20) a £25 Edwin Lloyd (100). Gwneir y dewis unwaith y mis ac os oes unrhyw un am ymaelodi gellir cael manylion gan y trefnydd, Tecwyn Huws (671469).

DIOLCH HAEDDIANOL. Clwb bywiog iawn yw Clwb Bro Bethel, gyda sawl cymeriad ymysg y 40 aelod. Clwb ifanc ei ysbryd yw'r clwb henoed yma. Erbyn hyn mae wedi bod mewn bodolaeth am dros 20 mlynedd ac yn cyfarfod yn rheolaidd ar y dydd Mawrth cyntaf o bob mis. Bu festrïoedd capel Bethel a'r Cysegr yn gartref iddo yn eu tro, a bydd blwyddyn newydd arall yn dechrau yn festri'r Cysegr ym mis Medi.

Yn ddiweddar cafwyd dathliad i werthfawrogi a diolch am gyfraniad tair o selogion y clwb. Bu Mary Hughes, Mary Griffiths a Bessie Ellis yn aelodau a swyddogion yn eu tro yn y clwb o'r cychwyn. Gwahoddwyd yr aelodau i'r Bedol a rhoddwyd pryd o fwyd yn rhad ac am ddim i bawb gan Kevin a Carolynne. Mae'r aelodau yn gwerthfawrogi'r haelioni. Wedi'r bwyta, cafwyd teyrnged haeddianol i'r tair, a chyflwynwyd tusw o flodau iddynt ar ran y clwb. Fel y cyfeiriwyd eisoes bydd y clwb yn ail ymgynnull fis Medi. Y swyddogion am eleni fydd y Parch Gwynfor Williams (Llywydd); Goronwy Jones (Is-lywydd); Nerys Owen (Ysgrifennydd); Alice Jones (Trysorydd).

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'

TEGANAU, CARDIAU

MELYSION

ANRHEGION

Bara Ffres

Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Beth am anfon Stori neu Lythyr i'r **ECO**

Menter Gweithdai Creadigol Deiniolen

Ers dwy flynedd bellach, rwyf wedi cael y fraint o fyw yma yn Neiniolen wedi i mi symud o Fethesda i Bank House sy'n cynnwys y siop trin gwallt gynt. Yn ystod yr amser yma, mae pobl leol wedi fy holi ynglŷn â'm bwriadau tuag at y siop wag. Roedd rhai'n awgrymu caffi/bar ond wedi menter darparu bwyd aflwyddiannus cyn-berchennog ni fuasai caffi yn ddichonadwy. Hefyd, gyda nifer cyfyngedig o gwsmeriaid buasai'n rhaid rhedeg y fenter gan wirfoddolwyr. Bu cynnig ar redeg caffi cymuned yn yr 80'au gan yr eglwys ond bu iddo gau wedi gostyngiad mewn diddordeb a chefnogaeth gwirfoddolwyr.

Yn ddidaro, roeddwn yn ystyried y posibilrwydd o gael cefnogaeth ariannol i gynnal cynllun cymunedol yn ôl anghenion y bobl leol. Dyma pryd y gofynodd Mair Owen Pierce i mi gynnal y gweithdai cerfwaith llechen i bobl ifanc, fel rhan o'r cynllun 'pobl mewn cymunedau' yng Ngwaun Gynfi. Roeddwn yn hapus i wneud hyn.

Gofynnwyd i Meic Watts, artist preswyl Menter Ardaloedd Llechi Cyngor Gwynedd, mewn cysylltiad â Cywaith Cymru, redeg 6 sesiwn ddwyawr gyda'r nos yn ystod Rhagfyr a Ionawr. Roedd hyn yn boblogaidd hefo'r bobl ifanc, niferus, a fynychodd – ond nid oedd eu rhieni wrth law i arolygu er y cyhoeddusrwydd ymhell o flaen llaw fod eu hangen. Bu diwedd annedwydd i'r cynllun yn dilyn gorymateb i ymddygiad herfeiddiol, ar Ionawr 3, 2001.

I gynnal cynllun creadigol yn effeithiol, credaf fod angen cadw'r nifer y plant i gelfyddydwr/wraig yn isel. Naill ai hyn neu ei fod o/hi yn cael cefnogaeth diffael a brwdfrydig y rhieni. Roedd Meic wedi gobeithio y buasai hyn ar gael. Fe fu ei ymadawiad sydyn yn drueni, gan fod yplant wedi colli'r gallu i ddangos balchder yn eu campau. Mae yn drist gweld y cerfwaith llechi anorffenedig yn y ffenestr. Mae modd adnabod yn syth arddull ac ansawdd rhai ohonynt.

I ran helaeth o'r plant a ddaeth i'r gweithdai yr oedd yn cynnig diddordeb newydd, cyffrous iddynt. Yn fwy na hyn, roedd yn weithgaredd y tu allan i'r ysgol lle'r oedd modd dangos eu gorau, yn gelfydd a hefyd fel aelodau cyfrifol o'r gymuned i'r dyfodol.

Am y rheswm yma y gelwais y siop y Caban, i gofio am bwysigrwydd diwylliannol y Cabanau i'r chwarelwyr. Yn union fel ag yr oedd eisteddfodau, trafodaethau a ffydd grefyddol yn gwasanaethu i gynnal eu gwerthoedd yn erbyn y trachwant, dichell, balchder a honiadau eu meistri; felly yr ydym yn darganfod fod gwerthoedd gweddus (h.y. rhinwedd, gwirionedd, doethineb a phrydferthwch) yn cael ei danseilio a'i sarhau gan dwyll a sothach y diwylliant poblogaidd. I ddyfynu Matthew Arnold fod diwylliant yn 'nwyd melyster a golau a (mwy na hyn) nwyd i wneud iddynt lwyddo', yna mae arnom angen noddfaoedd rhag y baw disgynedig, yn gyfateb i'r cytiau 'mochel ffiar a roddai gysgod amser tanio i'r chwarelwyr. Nid er mwyn claddu'n pennau yn y tywod, ond er mwyn cadw'n onest â ni'n hunain, fel unigolion a chymuned; fel ac yr oedd llawer i chwarelwr yn llwyddo'n academaidd yn dilyn grym diwylliant y Caban.

Yr wyf yn ystyried ail-gychwyn y gweithdai cerfwaith llechi (os yn llwyddiannus hefo'm cais am arian i'w gynnal). Er mwyn cynnal gweithdai drwy'r flwyddyn fe fydd angen ehangu i weithdai eraill, e.e. cerfio pren a cherflunio clai efallai. Mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel cyfryngau parchus sy'n gallu dangos anrhydedd i bersonau o unrhyw oed a dawn.

Rwy'n barod i ystyried unrhyw awgrymiadau o weithdai creadigol eraill. Mae cerflunwyr pren a llechi ar gael hefo profiad gweithio hefo pobl ifanc a fuasai'n ystyried comisiwn, a rhai gyda llai o brofiad addysgol ond gyda llawer iawn i'w gynnig. Fe wn am gerflunwr clai (ym Mae Cemais) ond neb yn lleol. Tybed a oes crefftwr/wraig brofiadol yn lleol sy'n awyddus i gynnal gweithdai nosweithiol (6.30 hyd at 8.30) yn y Caban am dal?

Credaf y dylid cadw'r gwerthoedd ac adeiladwaith ar sail yr hyn a ddysgwyd pan fu'r Caban ar agor dros y gaeaf a hefyd am amser byr ym Mehefin. Ar y ddau achlysur bu rhaid cau, ar fyr rybudd, oherwydd camymddygiad un neu ddau unigolyn.

Awgrymaf fod y gwerthoedd yma i fod fel a nodwyd isod (gyda derbyniad gan arweinyddion y gymuned).

1. Urddas a pharch tuag at bawb. Dim defnyddio iaith anweddus; nac ymddwyn yn afreolus; dim ymosodiadau na fandaliaeth; dim ysmygu na chyffuriau nac alcohol; dim sgwteri, cerddoriaeth na gemau electronig; dim eilun addoliad anheilwng o sêr pop nac arddangos eitemau gwamal.
2. Gwelliant parhaol ar sgiliau artistig (yn canoli ar enillion personol); mesur y campwaith fel carreg filltir o'i welliannau personol o/hi; adlewyrchu ar hyn y mae'r unigolyn a'r grŵp wedi ei lwyddo a rhannu ymarferion gorau; annog cyfrifoldeb personol am ei grefft ac am anrhydedd ei grefft; cefnogi ei gilydd a hybu ymddygiad gwerthfawr i wirionedd a phrydferthwch natur ac yn yr ysbryd dynol gan ddangos esiamplau – cyn neu ar ôl sesiynau – o arlunwaith neu ffotograffiaeth, neu adrodd barddoniaeth neu ddyrchafu llenyddiaeth, drwy ddefnydd o fwrdd hysbysebion i hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasau diwylliannol eraill yn ardal Gwaun Gynfi.)
3. Cefnogaeth lwyr er lles mynychwyr y Caban (cefnogaeth rhieni, mesur a phwyso, pwyso a mesur; mwy o sesiynau – yn ddelfrydol trwy'r flwyddyn – gyda llai mewn nifer i bob sesiwn, yn annog ffurfio grwpiau cyfeillion, 3 o bob un o'r tair cymuned, Dinorwig, Deiniolen a Chlwt-y-bont, er mwyn sicrhau cyd-barch rhwng y grwpiau a chytgord oddi mewn, er mwyn iddynt elwa'n unigol trwy ymddwyn yn foddhaol a thrwy gymhelliant diwylliannol (nid trwy gampwaith artistig, a fuasai'n digaloni y rhai llai dawnus) yn datblygu'n elw i'r grŵp trwy gyfundrefn gwobrwyo priodol, tra bod camymddygiad unigolion a difaterwch yn adlewyrchu'n ddrwg ar y grŵp; profi parch tuag at deimladau mynychwyr y Caban trwy wrando arnynt a chydnabod cyfraniad artistig a chymdeithasol pob un; trafod problemau fel y maent yn codi; cyfarfod gofynion elfennol am gysur, lluniaeth, iechyd a diogelwch; gwaredu addewid i adnewyddu'r adeilad (gyda noddiant) a hefyd i ddarparu digon o gefnogaeth ymarferol a materol ar gyfer pob sesiwn; ac yn olaf er nad y lleiaf, ateb cwestiynau diwinyddiaethol dilys yn ofalus pe bai gofyn.
4. Cefnogi cysylltiadau rhwng ysgolion / cymuned / gwaith (cydnabod fod gan blant a phobl ifanc flaenoriaethau a thargedau i'w cyflawni yn yr ysgol ac ym myd gwaith. Mae yn bosib fod eu rhieni ac athrawon yn awyddus iddynt ddilyn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol sy'n ychwanegu at addysg ac yn arwain at ddewis gyrfa; cysylltu ysgolion lleol â'r swyddfa addysg i addasu sesiynau'r gweithdy i gyfarfod newidiadau mewn anghenion addysgol. Nerth y gweithdai fydd yn yr oedolion a'r bobl ifanc sy'n eu mynychu, yn y berthynas a grëwyd a hefyd yn eu darganfyddiaeth o fyd o brydferthwch ac ystyr, trwy

GORSAF BETROL
ESSO BERAN
DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion
TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

STEPHEN JONES
Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco
(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976
Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

gelfyddydau gweledig a thrwy ysbardynu diddordeb diwyllianol.

Nid diddanu'r ifanc na pharatoi hyfforddiant artistig fel y cyfryw yw pwrpas sylfaenol y gweithdai gan y buasai hyn yn disgyn yn fyr o ddelfryd y Caban – felly rwy'n credu. Nid oes prinder adloniant na chelfyddyd yn y byd, ond awgrymaf nad oes gan eu ffurf modern 'felyster a golau'. Wrth gwrs nid oes yn rhaid i ddarllenwyr dderbyn diffiniad Arnold o fwriadau gwir ddiwylliant. Ond os oes y teimlad fod yr hen sgiliau ac ysbryd cadarn y Caban o annibyniaeth diwyllianol yn haeddu ei ddathlu mewn dull sy'n ganolbwynt i gymuned wasgarol, fe fyddant yn siŵr o fod mewn cytundeb. Fe all y grym i feithrin yr hunan a'r gymuned yn y gorffennol weithio eto; yr ymadrodd sylfaenol yw nid 'mae cerfio llechen yn cŵl' ond 'beth am i ni i gyd wneud rhywbeth dychmygol ac artistig gyda'n gilydd (gyda llechen neu beth bynnag).'

Dyna'r cyfan ar y Mynegiad Gweledigaeth. Fe fyddaf yn falch o gael barn trigolion Gwaun Gynfi. Ysgrifennwch neu ffoniwch i'r cyfeiriad isod. Croesawaf unrhyw wybodaeth neu gyngor y credwch y dylwn ei ystyried cyn cychwyn ar y fath fenter.

Gyda'ch caniatad fe fyddaf yn defnyddio'ch sylw ysgrifenedig gada'm cais am arian. Unrhyw lythyr o gefnogaeth neu rai sy'n awgrymu gweithgareddau gan arweinwyr cynlluniau eraill a grwpiau lleol yn enwedig. Gofynnaf am lythyrau gan y bobl ifanc (oherwydd atynt hwy yr anelwyd y gweithdai yn wreiddiol). Hefyd fe fydd arnaf angen asesu cefnogaeth i gynnal gweithdai i oedolion, e.e. arlunio, ffotograffiaeth, crochenwaith, gwneud gemwaith ayyb. Os ydych yn ifanc neu yn llai ifanc ysgrifenwch a gadewch i mi wybod eich blaenoriaethau

Ac os na yw'r 'Mynegiad Gweledol' uchod yn eu cynnwys, pa weithdai creadigol y byddech yn debyg o'u mynychu, pryd a pha mor amal. Os yn rhiant ac yn barod i arolygu, neu yn gerfiwr llechen neu bren profiadol neu unrhyw grefftwr arall a fyddai'n hoffi cyfrannu – ysgrifenwch neu ffoniwch os gwelwch yn dda. Gadewch i mi wybod.

Er mwyn gyrru cais ariannol i Gyngor Celfyddydau y Loteri Cenedlaethol fe fydd angen sefydlu corff cydraddol gyda gosodiad cydnabyddedig cyfreithlon a swyddogion: Cadeirydd, Is-gadeirydd; Ysgrifennydd; Trysorydd, wedi eu dewis o arweinyddion y gymuned, y grwpiau targed neu grefftwyr. Arnynt fe fydd y cyfrifoldeb am benderfynu ar enw'r gymdeithas, ffurfio'r amcanion a'r dull o reoli, beth a ddigwydd i unrhyw elw, pa mor aml i gwrdd, ac anghenion aelodaeth. Unrhyw un sy'n dymuno bod â chysylltiad oherwydd cariad tuag at gelfyddyd a phobl, rwy'n eu gwahodd i ysgrifennu ataf i neu ffonio (yn Saesneg os gwelwch yn dda, gan nad wyf yn rhugl yn y Gymraeg eto).

Diolch yn fawr
George Nevison,
Shiloah,
Stryd Fawr
Deiniolen
Caernarfon LL55 3HR
Ffôn: 01286 871404.



DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £303.54 yn Neiniolen gan J. Thorman Jones, E.M. Williams, Eirian Jones, Lorna Lewis, Helen Jones, Margaret Williams, Carys Thomas ac Anna K. Williams. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

YR YSGOL SUL UNEDIG. Dydd Sadwrn, Mehefin 30 ymunodd plant yr Ysgol Sul ag Ysgol Sul Llandinorwig am eu gwibdaith flynyddol i Rhyl. Y Sul wedyn, cawsant fore o hwyl yn y festri, gan fwynhau diod a bisgedi, fideo, cwis a gemau. Y Sul canlynol, Gorffennaf 15 cynhaliwyd gwasanaeth teuluol yn y Capel dan arweiniad Mr D. Roberts, Trefor. Bu'r plant yn canu rhai o'u hoff ganeuon, ac yn y pnawn aeth nifer ohonynt i Sbri'r Ysgol Sul yn Ysgol Brynrefail. Bydd yr Ysgol Sul yn ail-ddechrau ar Fedi 9, 2001. Croeso cynnes i bawb.

ESTYNNWN ein dymuniadau gorau i ieuenctid yr ardal fydd yn dechrau o'r newydd ar gwrs coleg neu ar eu swydd gyntaf.

MERCHED Y WAWR. Cafwyd diwedd rhagorol i weithgareddau'r tymor ddydd Sadwrn, Gorffennaf 14. Aeth y rhan fwyaf o'r aelodau ar wibdaith i Ynys Môn, gan ymweld i ddechrau â Melin Llynnon yn Llanddeusant. Mwynhawyd yn fawr ymweld â'r llecyn hanesyddol hwn. Yna aethom ymlaen i Gaergybi, lle mwynhawyd cyfle i siopa. Yna cawsom fwyd blasus yn Nhafarn y Rhos, Rhostrehwfa. Diolch yn fawr i'r ysgrifenyddes, Iona Richards, ac i'r trefnydd Margaret E. Jones am eu holl waith trwy gydol y tymor.

DIOLCH. Dymuna Eirian a'r teulu ddiolch am bob cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, Lena Thomas.

Y SEINDORF. Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ennill yr ail wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a'r Cylch yn ystod mis Awst.

Enillwyr tynfa mis Ebrill: 1. (121) John Griffith, Fron; 2. (41) Deilwen Hughes, Bethel; 3. (1) Tommy A Parry, Bro Dawel.

Mis Mai: 1. (3) Alun Lewis, 36 Rhydfadog; 2. (213) Eirwen Williams, Pen-y-golwg; 3. (217) Sian Roberts, 10 Cynfi Terrace.

Mis Mehefin: 1. (116) R.O. Williams; 2. (93) Gethin Williams, 1 Pentre Helen; (134) Brenda Williams, Rhydfadog.

Mis Gorffennaf: 1. (83) Len Williams, 26 Hafod Oleu; 2. (123) Margaret Williams, Ael y Bryn, Rhiwen; 3. (31) Ellis Wyn Williams, 6 Ffordd Deiniol.

DYMUNA Gladys Roberts, 27 Hafod Oleu, Deiniolen ddiolch i'r teulu a'i ffrindiau i gyd am yr anrhegion a'r cardiau a gafodd ar ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

DYMUNA Margaret, 6 Ffordd Deiniol ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion, arian a'r llu cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

DYMUNA Ellis Wyn, 6 Ffordd Deiniol ddiolch o galon i bawb a fu mor garedig wrtho tra bu yn yr ysbyty, ac i holl staff Ward Dulas am y gofal a'r caredigrwydd a gafodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH. Dymuna Sheila a phlant y diweddar Mr O. Thomas (Now Bach) Mona House, ddiolch yn ddiffuant i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth a gawsant yn eu profedigaeth a'u galar. Diolch hefyd i Feddygon Clinic Llanberis a phawb a fu'n gofalu amdano yn Uned Gofal Calon Ysbyty Gwynedd ac i Mr Gwynfor Jones (nai) am ei drefniadau trylwyr.

DYMUNA Buddug Hughes, London House, Clwt-y-bont ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn glaf yn Ysbyty Llandudno yn ddiweddar.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i Elfed Morgan Morris, 'Llechwedd', Deiniolen ar ennill yr Unawd Bechgyn 16-19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a'r Cylch ar Awst 6, 2001.

Hoffai Elfed ddiolch o waelod calon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Fframia

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £53.37 yn Ninorwig gan Mr a Mrs Ifan Roberts. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

GWELLHAD. Yr ydym fel ardal yn dymuno gwellhad buan i Mr David Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian. Dafydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac wedi bod adref o'i waith ers rhai wythnosau bellach. Da yw deall ei fod yn gwella a gobeithio y cawn ei weld yn cael ail afael yn ei waith yn lled fuan. Brysia wella, Dafydd.

CLWB ORWIG. Yn ystod mis Groffennaf, fe fu i'r clwb uchod gyfarfod yng nghartref Pat Ingle, pryd y cawsant ddiwrnod arbennig o braf, a thrwy hynny cawsant fynd o amgylch yr ardd odidog sydd ganddi, hefyd bu iddynt allu cyfnewid planhigion. Wedi hyn cawsant eistedd i lawr i fwynhau mefus a hufen, wedi cael ei rhoi gan margaret Faulkener a Betty Bonnet. Rhoddwyd y raffl gan Anne Lo. Enillwyr y raffl oedd Eve Braithwaite, Joan Glass a Margaret Faulkener. Diolchwyd i bawb oedd wedi cyfrannu at y diwrnod gan y Llywydd, John Cantrell. Croesawyd Wendy Higgins, fel aelod newydd i'r clwb.

Yn y cyfarfod olaf cyn gwyliau mis Awst bu i'r clwb gyfarfod ym Mhencadlys yr Henoed yng Nghaernarfonm, gan nad oedd yn bosibl iddynt fynd i Blue Peris oherwydd fod gwaith yn cael ei wneud yno (Pam tybed oedd yn rhaid pasio'r Ganolfan i fynd i Gaernarfon?) Y siaradwraig oedd Helen Owen, Swyddog yr Henoed yng Nghymru. Y pwnc pwysicaf a drafodwyd oedd fod yr henoed yn cael eu gorfodi i werthu eu heiddo os oeddynt mor anffodus â gorfod mynd i gartref henoed i ddiweddu eu hoes. Unwaith eto diolchwyd iddi gan y Llywydd.

Y GANOLFAN. Unwaith eto mae swyddogion y Ganolfan am ei wneud yn berffaith glir fod y Ganolfan ar gael i bawb sydd eisiau cynnal unrhyw weithgareddau o fewn rheswm; am y taliadau sydd wedi eu cyhoeddi yn yr Eco fwy nag unwaith o'r blaen. Os gwelwch yn dda peidiwch a gweld bai ar y swyddogion, nid ydynt hwy yn gwneud dim yn fwy nag y mae'r pwyllgor wedi ei basio. Mae rhai o'r swyddogion wedi gwneud y gwaith yn rhad ac am ddim ers 1969, ac yn dal i wneud hynny. Mae'n hawdd iawn beirniadu ond beth am droi i mewn a rhoi cymorth.

AGOR LLWYBRAU. Newyddion da a ddaeth i'r ardal a gwyliau'r haf ar ei anterth, fod 80% o lwybrau cyhoeddus wedi cael eu hailagor ar ôl clwy'r traed a'r genau. Mae hynny yn golygu fod pobl yn cael mwyniant wrth eu cerdded. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cynhyrchu mapiau a'r rheini yn cael eu diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau fod cerddwyr yn gwybod lle y gallant grwydro. Gobeithio fod y wybodaeth wedi bod o gymorth i'r rhai sydd yn mwynhau cerdded ac hefyd yn hwb i'r diwydiant twristiaeth yma yng nghefn gwlad, ac i eraill sy'n mwynhau gweithgareddau awyr agored.

BORE COFFI. Bu i'r Eglwysi yn Neiniolen fynd ati i gynnal bore coffi i hel arian i'r hogiau sydd wedi colli eu gwaith, mewn ffordd hollol annheg, yn Ffatri 'Friction Dynamincs' Ferodo. Cynhaliwyd y bore coffi ar Orffennaf 21 yn Festri Ebenezer. Carwn ddiolch i bawb a brynodd docyn (ni fu i neb fy ngwrthod) ac hefyd am y rhoddion hael a dderbyniais. Casglwyd £610 i gyd. Diolch yn fawr iawn i chwi. Hefyd yr wyf yn sicr ein bod yn dymuno gwellhad llwyr a buan i Mr Tom Jones, eu cynrychiolydd undeb sydd wedi gweithio mor galed dros yr hogia. Tom wedi cael trawiad ar y galon. Brysia wella, Tom.

CYMDEITHAS TRIGOLION. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol o'r uchod yn y Ganolfan Grŵp newydd yw'r Gymdeithas uchod wedi ei sefydlu i ddatblygu a hybu cyfleoedd trigolion yr ardal am arian wrth gwrs. Yn ystod y flwyddyn fe sefydlwyd Clwb Orwig i rai dros 50, mae'r clwb yn cael ei redeg yn annibynol hefo tâl aelodaeth o £1 y tro, ac hefyd yn cael cymorth gan Sefydliad Gofal yr Henoed.

Cymorth i blant a phobl ifanc – derbyniwyd £1,600 o grant i'w wario ar weoithgareddau i'r plant. Yr hyn a gawsant oedd mynd i Blas y Brenin ddwy waith, a rhywrai yn cel eu talu am edrych ar ôl y plant. Dyma sut y dangoswyd y fantolen

	Derbyniadau		Taliadau
Incwm	8.20		1,600.00
Llog	.28	Mewn llaw	8.48
Grant	1600.00		
Cyfanswm	1608.48		1,608.48

Does neb wedi arwyddo iddynt archwilio'r fantolen a does dim ymddangosiad sut y talwyd allan £1,600. Mae y taliadau yn andros o uchel os yw mynd ddwy waith i Blas y Brenin yn costio £800 y tro. Mae yn hawdd deall mai hael yw Hywel ar bwrs rhywun arall.

Deallaf fod y pwyllgor wedi derbyn swm anrhydeddus arall o arian i'w galluogi i drefnu ar gyfer yr ifanc, a pharhau gyda grŵp i'r rhieni yn ystod yr hydref. Tybed faint o arian a wariwyd am yr amlenni drudfawr a ddaeth drwy ein drysau? A oedd angen y rhain gan mai eu danfon a wnaed hefo llaw? Mae gennyf ofn fod y pwyllgor yma, pwy bynnag ydynt, wedi arogli arian. Mae rhai ohonynt wedi byw yn yr ardal ers blynyddoedd, ond ni fu iddynt erioed o'r blaen godi llaw i wneud dim. Ni welwyd yr un ohonynt yn mynychu addoldy, nac yn estyn llaw i wneud dim yn y Ganolfan; er enghraifft ni ddaethant i'r Gymdeithas Lenyddol, Hwyl Hwyr, na'r Eisteddfod, ond wrth gwrs llafur cariad oedd yn cynnal y rhai yna. Ond gallaf eu sicrhau hwy fod y plant wedi dysgu a mwynhau a'r gwirfoddolwyr wedi cael pleser a mwyniant, ac ni fu i neb ohonom elwa yn ariannol, o'n pocedi y daeth yr arian i dalu a hyn yn gwneud y mwyniant yn llawer mwy.

ANTUR WAUNFAWR

Angen Llestri Traddodiadol i Ddresel

Bu cyffro mawr yr wythnos yma pan gyrhaeddodd hen ddresel dderw 1880 yn Antur Waunfawr.

Yn wreiddiol o ardal Arfon, nodwedd anarferol i'r ddresel yw fod ganddi silffordd agored yn hytrach na chypyrddau ar y gwaelod. Fel arfer, seiri o dde Cymru fyddai'n creu dreseli o'r math yma, ond mae'n debyg fod patrymau wedi dechrau teithio erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Roedd y ddresel yn rhan o gasgliad wrth gefn Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan ac, wedi ymweliad â'r Antur gan staff Sain Ffagan yn gynharach yn y flwyddyn, roeddynt yn falch o leoli'r ddresel yn Nhŷ Capel yr Antur. Bydd yn cymeryd ei lle mewn ystafell braf ar lawr cyntaf y tŷ, sef yr Amgueddfa/Llyfrgell Gymunedol.

Meddai Menna Jones, Prif Weithredwraig yr Antur:

'Mae'r Antur yn datblygu tair ystafell yn y Tŷ Capel fel cyfres o amgueddfeydd bychan i greu adnodd i'r gymuned leol fydd yn codi ymwybyddiaeth ac yn dathlu hanes cyfoethog Waunfawr. Bydd ymwelwyr i'r safle yn cael dealltwriaeth o bwysigrwydd hanesyddol y Waun, a sut mae bywyd wedi newid yn y pentref dros y blynyddoedd.'

Mae'r Antur nawr yn brysur yn ceisio cael llestri traddodiadol, neu biwtar i addurno'r ddresel. Gan fod silffordd uwchben ac ar y gwaelod, bydd angen tipyn o ddarnau i'w llenwi. Dylai unrhyw un sydd ag eitemau y byddent yn fodlon eu benthyca i'r Antur gysylltu ac Ifanwy Rhisiart (01286) 650721, er mwyn gweld a ydynt yn addas i'r ddresel.

LLANDDEINIOLEN

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £55.02 yn Llanddeiniolen a Seion gan Glenys a Jenkin Griffiths. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

SPAR
Y STORFA
LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: (01286) 672790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON
Bwyd ac anghenion Anifeiliaid anwes a physgod. Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio cŵn a chathod o bob math gan arbenigwyr
STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

R.M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Gwynedd Hotel & Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant – disgo a.y.y.b.
Bwrdd Pŵl ar gael
Bwydlen Bar a Restaurant
Trwydded lawn tŷ tafarn.

www.s4c.co.uk

Bywyd ar ôl Gareth.
Beth sy'n wynebu'r genod rŵan?

AMDANI

9.00PM
NOS SUL

YN CYCHWYN MEDI 16
TRANSL888/889

Ailddarlledlad bob nos Fawrth gydag is-deitlau Saesneg ar y sgrin

CYFRES NEWYDD

S4C

Cyfarfod Blynyddol Eco'r Wyddfa

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol eleni yn y Ganolfan Gymunedol newydd yn Llanrug, gan roi cyfle i'r rhai oedd yn bresennol gael golwg gyntaf ar yr adeilad y gwelwyd hanes ei ddatblygiad yn yr Eco.

Fel sy'n draddodiadol bron, gwan iawn oedd y presenoldeb ar y noson. Chwech yn unig oedd yn bresennol, gyda phump arall yn ymddiheuro ond tarodd y Cadeirydd, Arwel Jones, rhyw nodyn gobeithiol drwy nodi fod y nifer yn bresennol ddwy waith cymaint ag yr oedd y flwyddyn cynt!

Diolchwyd i'r golygyddion a gweddill y Swyddogion am eu gwaith dros y flwyddyn, gan gyfeirio hefyd at gyfraniad gwerthfawr pawb a gyfrannodd at gynnwys y papur.

Yn eu hadroddiad cyfeiriodd y golygyddion at waith y flwyddyn gan nodi gwerthfawrogiad o gyfraniad y rhai sy'n llunio colofnau rheolaidd. Nodwyd yr angen i ystyried sefydlu sefle i'r Eco ar y Wê fel modd o ymestyn allan at ddarllenywr eraill, yn enwedig tu hwnt i ffiniau'r fro.

Adroddwyd gan y Trysorydd fod sefyllfa ariannol y papur yn parhau'n dderbyniol, gan ddangos rhywfaint o elw ac fe ddosbarthwyd taflen yn crynhoi'r sefyllfa. Nododd fodd bynnag fod gwaith gweddol yn codi mewn perthynas â hel yr arian sy'n ddyledus i'r papur a chytunwyd i ofyn am gymorth i gyflawni'r gwaith yma.

Nododd Mr Eifion Williams, prifathro Ysgol Brynrefail benderfyniad yr ysgol i brynu camera digidol at wasanaeth yr Eco ac fe ddiolchwyd yn fawr iddo, ar ran pawb oedd yn bresennol, gan y Cadeirydd.

ECO'R WYDDFA

INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN I 31 MAWRTH 2001

1999-2000			
	Incwm		
4719.63	Gwerthiant		6299.80
10664.50	Hysbysebion		9958.50
32.00	Rhannu taflenni		100.00
910.48	Rhoddion		911.00
	Grantiau		
1000.00	Bwrdd yr Iaith Gymraeg	1000.00	
	Cynghorau Cymuned:		
300.00	Llanberis		
300.00	Llanddeiniolen	150.00	
500.00	Llanrug	500.00	
75.00	Waunfawr	100.00	1750.00
25.00	Incwm arall		
3.82	Llôg Banc		7.73
18530.43			19027.03
	Gwariant		
18104.23	Argraffu		18032.85
54.89	Ffotograffiaeth		100.00
315.70	Post		353.70
0.00	Papur a Labelau		0.00
45.00	Gwobrau Croesair		55.00
-0.80	Cystadleuaeth Pel Droed		20.50
8.00	Costau eraill		
18527.02			18562.05
3.41	**Elw (Colled) am y flwyddyn**		464.98

Y SEFYLLFA AR 31 MAWRTH 2001

	Asedau Tymor Byr	
6419.10	Yn ddyledus i'r Eco	5468.00
2066.79	Cyfrif Banc	2058.32
30.00	Arian parod	944.32
8515.89		8470.64
7432.83	Llai Credydwyr	6922.60
1083.06	**Cronfa'r Eco**	1548.04

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390



UNDEB Y MAMAU. Dydd Mawrth, Gorffennaf 3 cynhaliwyd y cyfarfod misol yn Festri Eglwys Sant Padarn. Arweiniwyd y gwasanaeth a'r gweddïau agoriadol gan y Rheithor. Yr eitem cyntaf ar yr agenda oedd estyn croeso cynnes i'r Parch Vittoria Hancock, ein curad newydd.

Cafwyd amser difyr iawn yng nghwmni ein gwraig wadd, sef Miss Glenys Parry. Dwyn atgofion melys wnaeth am yr amser pan oedd yn hyfforddi plant yr ardal i ddysgu Cymorth Cyntaf ac yn y blaen, pan oeddynt yn aelodau o Sant Ioan. Dangosodd lu o dystysgrifau a enillwyd mewn sawl eisteddfod a chystadlaethau drwy Gymru. Pwyntiodd allan fod sawl un o'r merched wedi dewis nyrsio ac yn dal i fod yn nyrsus heddiw. Clod mawr iddi am roi o'i hamser i'r gwaith gwerthfawr yma.

Trafodwyd ychydig o faterion busnes ac hefyd trefnwyd i gael trip ym mis Medi. Mrs Betty Williams a Mrs Betty Humphreys oedd yn ymorol am y lluniaeth ysgafn a diolchodd Mrs Nan Owen iddynt hwy a Glenys a Mrs Hilda Williams yn eilio. Terfynwyd drwy adrodd Y Gras.

NOSON CAWS A GWIN. Nos Sadwrn, Mehefin 30 cynhaliwyd noson o Gaws a Gwin yn Perthi, Llanrug, cartref Anne Parry-Jones. Roedd y tywydd yn braf a chafwyd cefnogaeth ardderchog gan bawb. Caasglwyd y swm o £641.50 tuag at Gronfa Epilepsy (E.R.F.). Dymuna Anne ddatgan ei gwerthfawrogiad i bawb am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i helpu.

Dyma restr o enwau'r rhai fu'n lwcus yn y raffl: Barbaciw – 36 Dôl Elidir; Chwisgi – Selyn, Llanberis; £10 petrol – Gwawr, Brynrefail; £20 (Seiont Nursery) – Delyth; gwin – 2 Blaen y Ddôl; gwin – Enid Price, Cwm-y-glo; *Liquer wine* – Nan ac Ernest; gwin coch – Marcia; gwin – Gwynfor, Moss Bank; £10 (Teesco) – Kath, Bungalows; gwin coch – Oriel Cwm; gwin coch – Francis Jones; gwin gwyn – Iwan (Evelyn); basged grôg – Olwen Llewelyn; gwin coch – Gwion Rhys; canhwyllau – James; llun – Dei; doilis lês – Kate Owen; cannwyl – Oriel Cwm; *tea cosy* – Catherine Jones.

PLAS PENGWAITH.

Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Mrs Dorothy Griffiths, Anti Doris a fu farw mis Gorffennaf yng Nghartref Penisarwaun. Hoffem ddiolch i'r teulu am eu rhodd i gronfa'r staff i ddiolch am y gofal a gafodd Anti Doris ym Mhlas Pengwaith tra bu gyda ni cyn ei gwaeledd, gan symud wedyn i Benisarwaun.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i Mr a Mrs J. Williams, Fferm Minffordd, Llanrug yn eu profedigaeth o golli Mr Thomas Williams yn Ysbyty Bryn Seiont fis Gorffennaf, un o gymeriadau eraill y Cartref.

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i deulu Mrs A. Thomas 'Nancy', Deiniolen am eu rhodd garedig i gronfa'r staff a chronfa Mwynderau y Preswylwyr i ddiolch am y gofal gafodd Nancy yma gyda ni.

Ar Awst 15 bu farw Mr D. Whitaker yn Ysbyty Gwynedd ar ôl cyfnod byr o waeledd. Ni fu angladd gan fod Mr Whitaker wedi gwneud ei drefniadau ei hun.

Dathlu eu pen-blwydd ym mis Medi y mae Mr R. H. Jones a Mrs L. Owen. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn iddynt.

Wedi dod i aros atom am gyfnod mae Mrs N. M. Owen, Cwm-y-glo a Mrs E. M. Thomas, Llanrug. Dymunwn estyn croeso cynnes iddynt atom.

Wedi myned i'r ysbyty'n ddiweddar mae Mrs Clara Jones, Mrs May Bannister a Mr Glyn Jones. Dymunwn wellhad buan iawn iddynt.

Fe fu rhai o'r trigolion ar gae y Carnifal gyda chymorth, Diolch i Eddison Power am y rhodd o'r bws.

Rydym yn dymuno pob lwc i Mr S. H. Roberts ar ei benodiad i'w swydd newydd yng Nghartref Plas Hedd, Bangor.

Bydd Noson o Hwyl yng Ngwesty Victoria, Llanberis ar Fedi 14 o 7.30 ymlaen gyda'r grŵp Y Geriatrics, Moonshine – Elwyn a Gareth, a Karaoke gyda Raymond. Tocynnau ar gael am £4 neu dalu ar y noson. Yr elw yn mynd i'r Cartref.

DYMUNA Cledwyn Parry, Glyder, Stryd Capel Coch ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 80 ar Orffennaf 21.

DIOLCH. Dymuna Mrs Sally Roberts, Lorne House ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu gofal tra oedd yn Ysbyty Gwynedd ar ôl cael damwain ar ei gwyliau'n ddiweddar.

DYMUNA Margaret Griffiths, 7 Llainwen Isaf ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion, blodau a galwadau ffôn tra bu yn Ysbyty Abergele ac ar ôl dod adref.

DYMUNA Derfel ac Anita ddiolch i nain a taid, 9 Stryd yr Wyddfa, y teulu a'u ffrindiau am yr anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu merch, Lowri, chwaer fach i Daniel.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £359.10 yn Llanberis gan Bet Hughes, Sioned Roberts, Dilys Roberts, Nelly Morris, Cath Pritchard, Jean Roberts, Alwena Thomas a Sybil Evans. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

Cyfarchion i Mr Cledwyn Parry ar ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed ar Orffennaf 21, 2001

Mae'r haf yn myned heibio,
Daeth hydref at y ddôr
A gwen yr haul sy'n gwywo
A gwyllt yw tonnau'r môr.
Diflannodd gwrid y rhosyn hardd
A'r aur a welid yn yr ardd.

Ond cyn i'r haf ein gadael,
Mae un ar ysgafn droed
Yn dathlu blwydd arbennig
Yn bedwar ugain oed.
Pen blaenor yn ein Capel ni
Yw Cledwyn Parry, welwch chi

Yn weithiwr llawn brwdfrydedd –
Does debyg iddo'n bod
Am lenwi'r cyhoeddiadau,
Pob oedfa'n llawn yw'r nôd;
Cael rhai i ddyfod ar y Sul
I'n harwain ar y Llwybr Cul.

Bu ef yn siopwr medrus,
Yn gwerthu llysiau îr
A ffrwythau per a melys –
Roedd rhai o estron dir.
Y siop bob amser oedd yn llawn
Tystiolaeth ydoedd hyn o'i ddawn.

Llongyfarch wnawn yn llawen
Y cyfaill hoffus hwn,
Mae pawb yn Nyffryn Peris
Yn flach o wneud, mi wn
A phen-blwydd hapus fo i chwi
Ddymuna Martha'r wraig a mi.

John H. Joghes
Tan y Clogwyn

DRAENOG

Mae cwningen fach yn cael lle da gyda theulu o Lanberis. Y gŵr yn 'morol o foron – a hwnnw wedi ei dorri'n daclus efo cyllell (dydi'r gwningen hon ddim yn cyboli efo moron fel arall). A'r wraig yn rhedeg rownd yr ardd bob nos i hel bwni fach i'w chwt, am na fedr gyffwrdd ynddi. Ydi, mae'r fwni yn dipyn o GYMÊR DDONIOL.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);
YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **ÔDH**
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

ÔDH
Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

H. E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
FFôn: 870444

- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

CASTELL BOWNSIO AR GYFER POB ACHLYSUR

Down â fo atoch a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon.
Ffôn: (01286) 872275

LLONGYFARCHIADAU i Anthony Foulkes, Dol Afon ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. Hefyd i Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd ar achlysur ei phen-blwydd hithau yn 70 oed.

YN YR YSBYTY. Dymunwn wellhad buan i Mrs Enid Price, Stryd Newydd sydd yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd anfonwn ein cofion at Mrs N.M. Owen, Glandwr sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Pengwaith ar ôl ysbaid yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri.

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau yn yr ysgol ac yn y Coleg.

Dinorwic, Ontario, Canada

Wrth geisio trefnu taith o Toronto i Vancouver, deuais ar draws lle o'r enw Dinorwic cododd fy niddordeb i geisio cael mwy o hanes am y lle. Ysgrifenais at ein ffrind yn Canada ac fe gyfieithiaf ddarn am Dinorwic yn ffurflen Aaron Provincial Park, Kenora District a yrrwyd i mi.

Dinorwic 49'41 92'30 ar y gongl ogleddol o Lyn Dinorwic yn Kinora District, de orllewin o Dryden. Fe'i enwyd yn 1897 gan superintendent y Canadian Pacific Railway, William Whyte, ar ôl Dinorwic yng ngogledd orllewin Cymru. Ardal ar wasgar yw, ar gongl y Trans Canada a Highway 72, 18 milltir i'r de orllewin o Dryden. Poblogaeth o 300. Rhan fwyaf o'r bobl yn Indiaid a Meltis, ac yn dibynnu am eu bywoliaeth ar y mudiad ymwelwyr, ffermio, trin mwydion pren a hel reis gwyllt yn ffordd arall o ennill incwm.

Does dim i'm hysbysu pwy oedd William Whyte a pha gysylltiad oedd ganddo â Dinorwic, fel yr oedd ei enw yr adeg honno.

Betty Rees Rourke
(gynt o Ddinorwig)

'Mentrwch os cewch gyfle'

Darlith gan Dafydd Wigley AC i Glwb Ieuenctid Entrepreneuraidd Gogledd Cymru

Nos Wener, Medi 14 am 7 o'r gloch yn Theatr Seilo, Caernarfon

Bydd Mr Dafydd Wigley yn rhoi sgwrs ar ei yrfa gynnar mewn diwydiant ar ôl iddo raddio mewn ffiseg o Brifysgol Manceinion, a gweithio i gwmnïau mentrus megis Ford, Mars a Hoover cyn cael ei ethol i'r senedd yn 1974.

Mae wedi cefnogi busnesau Cymreig yn frwdfrydig trwy gydol ei yrfa seneddol, yn neilltuol bu'n ymwneud yn bersonol â chychwyn cwmnïau Entrepreneuraidd Rhyngwladol newydd yng Nghymru a hefyd gweithio i ddenu cwmni Rhyngwladol mawr fel Euro DPC i sefydlu canolfan eu gweithrediadau Ewropeaidd yn Llanberis.

Mae Mr Wigley yn gryf ei gefnogaeth i'r 'Cynllun Gweithredu Entrepreneuraidd i Gymru' a luniwyd gan, ac y rhoddwyd llawer o gyhoeddusrwydd iddo, gan y Cynulliad Cenedlaethol, gyda'r nod o hyrwyddo mentergarwch mewn ysgolion, colegau a hefyd yn y gymuned.

Mae Clwb Ieuenctid Entrepreneuraidd Gogledd Cymru yn ymroddedig i raglen o weithgareddau a fydd yn cefnogi'r Cynllun Gweithredu. Trwy alluogi disgyblion i gwrdd a thrafod eu syniadau gyda Entrepreuneriaid sydd wedi hen sefydlu, trefnu ymweliadau â busnesau a diwydiant mentrus, a hefyd bod ynghlwm yn ymarferol mewn cynlluniau gwirioneddol gyda chwmnïau.

Rydym hefyd ar flaen y gad gan gymryd camau gwirioneddol i ledaenu'r ethos o fentergarwch ymhlith pobl ifanc Cymru. Mae ei sylfaenydd, Dr. Tom Parry Jones, yn entrepreneur, gwyddonydd a dyfeisiwr adnabyddus.

I gyd-fynd â'r sgwrs, cynhelir arddangosfa rhwng 5.30 a 9.00 o'r gloch gan nifer o sefydliadau, yn cynnig ystod eang o fentrau mewn gwyddoniaeth, peirianneg, technoleg a busnes i bobl ifanc. Bydd y rhain yn cynnwys:

Cynllun Addysg Peirianneg Cymru; Blwyddyn mewn Diwydiant; Gyrfaoedd Cymru; Menter yr Ifanc; Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru Bangor; Ymddiriedolaeth y Tywysog; Ymddiriedolaeth Treftadaeth Porthaethwy.

Fe fydd gwasanaeth cyfieithu ar gael ar y noson.

Am ragor o wybodaeth cysyllter â Dr Tom Parry Jones. Ffôn (01248) 713096

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £14.19 yn Nant Peris gan Prydwen Pritchard. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

YN YR YSBYTY. Dymuniadau gorau i Theresa Jones, 6 Nant Ffynnon, sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. (Y Golygyddion)

CLWB ENTREPRENEURAID IFANC GOGLEDD CYMRU

Nos Wener 14 Medi 7pm

THEATR SEILO CAERNARFON

Sgwrs gan

DAFYDD WIGLEY AC

'Mentrwch os cewch gyfle'

Sialens Newydd i Ieuenctid Cymru

Arddangosfa 5.30-9.00
gan amryw o sefydliadau yn cynnig
profiad gweithio ar brojectau i ysgolion mewn
gwyddoniaeth, peirianneg a busnes...

Croeso i Bawb, plant, athrawon a rhieni

Cadeirydd: Yr Athro Roy Evans, FREng, Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, Bangor

Wavell Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248) 714043
neu Caernarfon
Ffôn: (01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu
W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



FFENESTRI
DRYSAU
DRYSAU PATIO
PORCHES
BYRDDAU FFASIA
CLADIO
CONSERFATERIS
BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484
Bysiau o 12 i 53 sedd
Teithiau Lleol a Thramor
Gwaith Contract
Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Hwyl yr Haf ym MHENISARWAUN

EGLWYS SANTES HELEN.
Dawnsio Llinell. Cynhelir Dawnsio Llinell yn Neuadd yr Eglwys ar nos Fercher o Awst 8 am 8 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i ddawnswyr newydd.

Wythnos o Weithgareddau a'r Carnifal, Medi 30 – Awst 5.

Er gwaetha'r tywydd fe gynhaliwyd wythnos lwyddiannus eto eleni a chafwyd cefnogaeth dda i'r gweithgareddau.

Nos Lun, Medi 30 am 7.30 o'r gloch fe gynhaliwyd y Bingo gyda Mrs Helen Owen. Enillwyr y raffl oedd: 1. Mrs Robert Griffith; 2. Bonnie Roberts; 3. Mrs Elizabeth Jones; 4. Mrs Dilys Williams; 5. Mrs Elizabeth Jones; 6. Donna Jones.

Nos Fawrth, fe gynhaliwyd Gyrfa Chwist arbennig a'r enillwyr oedd 1. Mrs K. Griffith, Llanberis; 2. Mrs G. Hughes, Bethel; 3. Mrs G. Jones, Beddgelert; 4. Mr D.L. Evans, Bontnewydd; 5. Luke Hughes, Penisarwaun; 6. Mrs C. Pritchard, Y Felinheli; 7. Mrs B. Morgan, Bethel; 8. Mrs M. Huws, Beddgelert; 9. Mr D. Owen, Penisarwaun; 10. Mrs H. Owen, Penisarwaun; 11. Mrs S. Roberts, Bethel; 12. Mrs E. Price, Cwm-y-glo; 13. Mrs J.E. Roberts, Caernarfon; 14. Mrs M.L. Hughes, Y Felinheli; 15. Mrs D. Roberts, Llanberis; 16. Mrs S.H. Jones, Y Felinheli; Bwbi Dynion: Mr W.O. Pritchard, Llanrug; Bwbi Merched: Mrs M. Bradnock, Y Felinheli. Hanner Uchaf Dynion: Mr G. Roberts, Nant Gwynant; Hanner Uchaf Merched: Mrs M. Ellis, Llanberis.

Pwl chwarter cyntaf: Mrs K. Griffith, Llanberis; 2. Mrs S. Price, Cwm-y-glo; 3. Mrs K. Griffith, Llanberis; 4. Mrs S. Roberts, Bethel.

Enillwyr y raffl oedd 1. Mrs J.H. Y Felinheli; 2. Llyr Hughes, Penisarwaun; 3. Mrs E. Price, Cwm-y-glo; 4. Mrs J.H. Jones, Y Felinheli.

Nos Fercher fe gynhaliwyd Disgo i'r plant gyda'r DJ's Ken a Jan o'r K. Jan Kickers (Dawnswyr Llinell). Rhoddwyd gwobr i'r dawnsiwr gorau Glesni Jones ac i'r wisg orau Gerin Green. Yn dilyn y disgo cafwyd noson o Ddawnsio Llinell eto dan ofal y K. Jan Kickers. Enillwyr y raffl oedd 1. Gwyneth Jones; 2. Roberts Griffith; 3. Sandra Hughes. Hefyd fe enillwyd llawer o wobrau eraill gan nifer o aelodau ffyddlon o'r Dawsnwyr Llinell. Diolch i Ken a Jan am gynnal y gweithgareddau.

Nos Iau, oherwydd y tywydd fe ohiriwyd y Mabolgampau tan nos Fercher, Awst 8 ac eto eleni cafwyd noson o hwyl a mwynhad gan bawb o bob oed. Yr enillwyr oedd:

Rhedeg (dan oed ysgol): Cerin Green. (Bl. 0): Thomas Evans. (Bl. 1a2): Siôn Patrick Kylle. (Bl. 3a4): Gavin Williams. (Bl. 5a6): Lisa Williams. (Bl. 7,8a9): Mathew Phillips.

Rhedeg gyda bag Ffa ar y pen: (Dan oed ysgol a Bl.0): Thomas Evans.

Rhedeg gydag wy ar lwy. (Bl. 1a2): Kieron Hughes. (Bl. 3a4): Gavin Williams. (Bl. 5a6): Gethin Phillips. (Bl. 7,8a9): Mathew Phillips.

Ras Sgipio. (Bl. 0,1a2): Kieron Hughes. (Bl. 3a4): Gavin Williams. (Bl. 5a6): Gethin Phillips. (Bl. 7,8a9): Luke Hughes.

Ras Gyfnewid. (Bl. 2,3,4,5a6): Tîm Gethin. (Bl. 6,7,8a9) Tîm Mathew.

Nos Iau, yn yr Eglwys am 8 o'r gloch cafwyd sgwrs ddifyr gan y Parch Ganon R. Glyndwr Williams Bangor ar 'Hanes a Chynnwys y Ffenestr Liw yn yr Eglwys'. Daeth criw niferys i wrando arno ac rydym yn ddiolchgar dros ben iddo am ei anerchiad. Hefyd rhoddwyd datganiad ar yr organ gan Llyr Hughes. Yn dilyn y sgwrs cafwyd paned yn y Neuadd.

Nos Wener fe gynhaliwyd Helfa Drysor bleserus eto eleni ac er i rai ohonom fynd ar goll yn hollol fe ddiweddodd pawb yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis i gael pryd o fwyd. Enillwyr yr Helfa oedd y Parch Tegid Roberts a'r teulu. Enillwyr y raffl oedd Miss Sharon Owen; Mr Selwyn Griffith, Llanrug; Mrs Jennifer Hughes; Mr Harold Salisbury. Diolch i'r rhai a fu'n trefnu'r Helfa.

Dydd Sadwrn am 2 o'r gloch fe ddechreuodd Gorymdaith y Canrifal o'r Cartref Nyrsio i Gae'r Ysgol lle cafwyd arddangosfa gan rai o aelodau Gymnasteg Eryri wedi i'r cystadlaethau ddechrau ac er mwyn i'r plant gael cyfle i fynd ar y Castell Neidio yna daeth y glaw trwm. Er hynny fe symudwyd popeth yn ddidrafferth i Neuadd yr Eglwys er mwyn parhau gyda'r cystadlaethau. Rwy'n siŵr bod pawb yn wlyb diferol ond er hynny fe barhawyd gyda'r cystadlaethau. Do, fe wnaeth y glaw y Canrifal eleni yn un cwbl wahanol ac hefyd yn un fydd yn parhau yn ein meddyliau. Diolch i bawb am bob cymorth a gafwyd yn y brys mawr i gludo popeth i'r Neuadd. Diolch i Mr Arwel Jones am arwain y Canrifal ac i'r beirniaid Mr Reginald Jones a Mrs Heulwen Jones am eu gwaith anodd o bigo'r goreuon. Yr enillwyr oedd

Addurno Het: Hannah Thomas. *Addurno Pram*: Leanne Jones. *Addurno Beic*: Joe Thomas.

Unrhyw bâr (Dan 12): Indiaid Bach – Hanna Thomas a Tania Jones. (Dros 12): Fflemiaid – Meirwen a Janice / Ffermwyr – Selwyn a Beryl. *Unrhyw Wisg* (Dan oed ysgol): Indiaid Bach – Tania Lyn Jones. (Bl. 0): Merch Briodas – Katy Lewis. (Bl.1a2): Tecwyn y Tractor – Glesni Jones. (Bl.3 a4): Merch Flodau – Bonnie. (Uwchradd hyd at 15 oed): Chwaraewr Rygbi – Luke Hughes. (Dros 15): Merch Fach y Fferm – Beryl Jones. *Y Prif enillydd* o'r goreuon oedd Tania Lyn Jones.

Enillwyr y raffl fawr oedd Mrs Esme Jones – Hamper; Martin Hughes – Tocyn £10; Mrs Mary Evans – cinio i ddau; Mrs Rene Williams – rug; Mrs Gwenda Jones – siocledi; Miss Jenny McG – gwin; Mrs Janet Ash – gwin; Dylan – tocyn £5; Mrs Mary Evans – dol china; Miss Gwyneth Owen – tedi; Mrs Elizabeth Jones – doli rag; Mr Harold Salisbury – nwyddau ymolchi; Mrs Gwenda Jones – bocs gemau; Mr Selwyn Griffith – set ysgrifennu; Mrs Gwenda Jones – personal organiser; Mrs Elizabeth Jones – teganau meddal.

Dydd Sul fe gynhaliwyd y Gymanfa Ganu i gloi yr wythnos o weithgareddau. Arweinydd y Gymanfa a'r Côr oedd Mrs Eurgain Eames, gydag eitemau gan Côr Meibion Dyffryn Nantlle. Yr organydd oedd Mr Gareth Jones, Llanberis ac fe agorwyd y Gymanfa a'i diweddu gan y Parch Phillip Hughes, Deon Gwlad.

Diolchir i bawb a fu mor brysur yn adduro'r Eglwys ar gyfer y sgwrs ar y nos Iau a'r Gymanfa.

Eleni eto cafwyd wythnos lwyddiannus gyda phawb yn mwynhau yr hwyl a'r cymdeithasu. Ac fe hoffai aelodau Pwyllgor y Canrifal a swyddogion yr Eglwys ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, y cyfraniadau hael gan bobl a busnesau lleol, i bawb a gymerodd ran yn y gweithgareddau ac i bawb a fu mor weithgar yn ystod yr wythnos yn helpu gyda'r gwahanol weithgareddau.

GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
yn LLANRUG
ar gyfer eich holl anghenion
- Trin cyrff ceir
- Gwaith Mecanyddol
- Gwasanaeth/Service
- *Valleting*

(01286) 870814

antur WAUNFAWR

digwyddiadau mis Medi

nos Sadwrn, 15 Medi, 7.00 yr hwyr

DATHLU DIWRNOD
OWAIN GLYNDWR

GWLEDD O FWYD (3-CHWRS) A GWIN CYMREIG,
CERDDORIAETH TRADDODIADOL,
HANESION Y CYFNOD GAN
BOB MORRIS, PRIFYSGOL CYMRU - BANGOR
ARCHEBWCH EICH TOCYNNAU YN FUAN - £15 Y PEN
(YN CYNNWYS GWYDRYN O WÎN)

nos Wener, 28 Medi, 7.00 yr hwyr

GŴYL Y GWYLL
hwyl yn y parc i'r teulu yn dysgu am fywydau creaduriaid yr hwyrnos

tylluanod, ystlumod, y sêr, gwyfynnod a mwy: mynediad £1 / 50c

dydd Sadwrn, 22 Medi, 2.00 y pnawn

Râs yr Antur
gyda Ffion Dafis
Râs 10k a Râs Hwyl, stondinnau

☎ 01286 650 721
www.anturwaunfawr.org

ANTUR WAUNFAWR

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Prydferthwch Pluog



Y diweddar gyfaill Ted Breeze Jones a ddywedodd ei fod *'wedi gweld degau o adar trawiadol yn yr India, ond canfod peunod yn byw yn hollol wyllt yng nghefn gwlad'* a roddodd fwyaf o bleser iddo ac meddai'n ddi-flewyn ar dafod: *'Edmygwn y paun, aderyn cenedlaethol yr India ers cannoedd o flynyddoedd ac fe'i cludwyd gan ddynion i nifer fawr o wledydd y byd. Hyd at yr Oesoedd Canol, y paun oedd aderyn drutaf y byd a dim ond y gwir gyfoethogion a allai fforddio ei brynu. Gan ei fod yn aderyn hawdd i'w gadw a'i fagu, aeth yn rhan o hanes a chwedloniaeth nifer fawr o wledydd. Gogoniant y paun yw ei blu godidog, yr addurn a elwir gennym yn gynffon yr aderyn.'*

Tybed a wyddoch am y goel sy'n amlygu ei bod yn anlwcus dyfod â phlu paun i'r tŷ ac hyd yn oed eu gwisgo ar ddillad! Ebe Ted am geiliog yr aderyn: *Mewn gwirionedd, tusw o blu di-nod yw'r gynffon a thyf y plu ysblennydd o waelod cefn y paun i ffurfio'r wyntyll, a phob pluen â llygad drawiadol.*

Gloynnau Duw, gleiniau dail – fel 'na y disgrifir y llygaid, sy'n rhan o batrwm plu y ceiliog, a hynny gan Ddafydd ap Gwilym, (fl.1340-70), yn ei gywydd *Gerlant*, (sef torch o blu a wisgir am y pen), o *blu paun*. *Gloynnau Duw* yw glöynod byw ac arferid dweud hynny hyd at y ddeunawfed ganrif pryd y cafwyd gwared yn gyfangwbl o'r gair *Duw* a defnyddio *byw*'n ei le. Gwnaed hyn rhag cymryd enw Duw Dad yn ofer. *Gleiniau* yw meini gwerthfawr, gwydr, neu grisial.

Dychwelaf at Ted sy'n dweud yn ei lyfr hynod ddiddorol *Adar Dof Cymru Fu* (1997): *Ceir hyd at gant a hanner o'r plu yn ffurfio'r gynffon ffug, ond dywedir bod nam ym mhob perffeithrwydd; gwendid y paun yw'r alwad uchel fel utgorn sy'n cario cryn bellter ar draws gwlad!* Pan fo'r tywydd ar newid, neu ddieithriaid ar fin ymddangos, bydd cri aflafar y peunod i'w glywed o bellter! Gwarchod ei gynefin a wna'r hen baun.

Bydd y ceiliog ar rai cyfnodau'n y dydd yn gwneud sioe go iawn o'i blu ac yn eu harddangos, a thybir mai ceisio denu iâr a wna. Mae hi'n llwydaidd ran lliw. Bydd ganddo ef, y mistar, fwy nac un wraig a bydd ei wragedd, sef yr ieir, yn mynd ati i ddodwy ar leindiroedd moelion yn ystod misoedd Ionawr, Chwefror a Mawrth. Ran fynychaf, bydd y peunod yn clwydo ar ben coedydd, perthi, cloddiau cerrig ac adeiladau. Ychydig fyddant yn hedfan mewn gwirionedd ehediad sydyn ffwrdd â hi – dim ond er mwyn gosod pellter rhyngddynt â'u gelynion.

Yn ddiweddar daethpwyd i'r farn mai arddangos ei blu a wna'r ceiliog paun er mwyn dangos pa mor iach ydyw! Ceisio dweud wrth ei gymar a wna *edrych arnaf fi. Rydw i'n raenus o lân, yn drwsiadus ddigon ac y mae fy mhlu'n gyfan gennyf.* Darlun cwbwl ddigalon yw hwnnw o'r ceiliog paun â'i set plu'n anghyflawn, a'r cyfan yn llusgo o'i ledol. Mae'n edrych mor anghyflawn! – fel un â'i ben yn ei blu!

YN YR ARDD!

WIL G. ROBERTS

Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

Iolo a Brian

O fewn munudau, fel arfer yn yr eiliadau cyntaf, mi fyddwn yn chwerthin pryd bynnag y byddwn yn cwrdd gydag unai Brian Parry neu Iolo Huws Roberts. Roedd gan y ddau y dalent o wneud i chi chwerthin. Ond roedd cymaint mwy i'r ddau, fel mae pawb yn gwybod. Mae 'nyled i, fel aml i un arall 'swn i'n tybio, yn fawr i'r ddau am resymau gwahanol.

Yng nghwmni Iolo a Nan ar aml i wyliau haf fel plentyn fe gefais i a fy mrawd a chwaer wythnosau o hwyl, a'u hamynedd hyd yn oed pan oeddem ni'n sâl yn ddi-bendraw. Ond o dan yr ochr ddigrif roedd yn llawn amynedd, ac yn barod i roi cyngor i fachgen un-ar-ddeg oed oedd yn saethu cwestiynau ato yn ddi-ddiwedd, a fynta ar ei wyliau. Caem fynd draw hefyd, yn y dyddiau cyn y peiriant fideo, i wylio ffilmiau fel King Kong ar brojector ffilm, a fynta am y gora yn gwneud i ni deimlo fel pe tasen ni mewn sinema. Mynd allan o'i ffordd i wneud yn siŵr ein bod yn mwynhau ein hunain.

Dros y blynyddoedd canlynol byddai bob amser yn barod ei gyngor, a'i gyfarchiad 'cofiwch alw' neu 'peidiwch bod yn ddiarth' yn sbardun i daro heibio Bodrida am banad ac i rannu straeon digrif. Byddai bob amser ac atgofion a straeon difyr am bobl yr ardal; gwell i mi beidio eu hail-adrodd nhw yma! Hedfan wnâi'r amser yno bob amser, ac anodd oedd codi i adael.

Pan wnes i ddechra sgwennu o ddifri tua tair blynedd yn ôl, doedd fawr o glem gen i a deud y gwir, dim ond teipio popeth a ddôi i fy mhen heb fawr o drefn. Ar ôl ychydig fisoedd fe es a pentwr o bapura digon blêr at Iolo a'u gadael yno yn reit ddigywilydd cyn carlamu yn ôl i Gaerdydd. O fewn dyddia roedd wedi pori trwyddyn nhw a mynd ati i wneud nodiada manwl ar y penodau bratiog gwreiddiol.

Galw draw i'w casglu a gwrando arno'n siarad oedd y cam doetha imi wneud erioed, ac mi fydda i'n trysori'r cyngor yna am byth. Ei ganllawia a'i sylwada fo wnaeth fy nhywys i dros y misoedd yna o sgrifennu. Ac mi fydda nhw yn fy nghof wrth imi sgwennu yn y dyfodol hefyd.

Symud i drws nesaf i ni wnaeth Brian a Shirley a finna tua hanner ffordd trwy ysgol Syr Hugh. Ac o fewn dim roedd yn ein herio wrth chwarae pêl-droed, er fod Ieuan wedi dod yn dipyn o law ar wneud hyn yn fuan iawn. O fewn misoedd roedd wedi gwneud ei farc, gan ddofi y tyfiant gwyllt oedd yng nghefn y tŷ a phlannu planhigion, codi tŷ gwydr a chynllunio estyniad i'r tŷ. Doedd dim diwedd ar ei gynlluniau a'i ynni.

Dwi'n cofio galw draw unwaith a finna ar ganol adolygu ar gyfer arholiadau, ac oedd, roedd yn ddiwrnod braf fel bob tro yr âi rhywun ati i adolygu. Ond roedd Brian hefyd yn gweithio, yn paratoi i gychwyn busnes ei hun, ac fe eglurodd yn fras i mi beth oedd ganddo ar y gweill ar ôl i mi sefyll yno yn cwyno am y tywydd a'r arholiada diflas.

'Pa mor hir ma nhw yn para?' medda fo a phentwr o bapura o'i flaen.

'Pythefnos,' atebais i yn rhyw chwarae hefo'r syniad o fynd i bysgota.

'A pha mor hir ma'r gwyliau haf yn para?' gofynnodd wedyn.

'Tua naw wythnos, fysa dim rhaid mynd nôl tan ddechra mis Medi,' atebais i gan gofio mai wythnos gyntaf Mehefin oedd hi.

'Wel, bydd gen ti ddigon o amser i chwara pêl-droed a ballu ar ôl iddyn nhw orffen. A dwi siŵr y byddi'n enjoio gymaint mwy ar ôl gweithio yn galad amdanyn nhw. Does dim byd yn dod yn hawdd, 'sti.'

Cyngor syml, ond fe lynodd hynna yn fy meddwl. A dwi'n cofio meddwl os oedd o tu fewn yn gweithio, yna tu fewn oedd y lle gorau i finna hefyd, er gwaetha'r haul.

Ac mae'r noson Nadolig pan alwodd Brian draw hefo'r peiriant *karaoke* yn mynd i fod yn un o'r nosweithiau yna y byddan ni fel teulu yn sôn amdani am flynyddoedd. Mi lwyddodd i berswadio pawb i gael cynnig arni, hyd yn oed nain a finna.

Dwi'n cofio unwaith taro ar draws Brian efo'r hogia ar y stryd yng Nghaerdydd ar bnawn Sul. Y wên gellweirys yna, dipyn o dynnu coes a sgwrsio a holi sut oedd petha yn mynd i mi 'lawr yn Gaerdydd 'na', er ei fod ar frys i fynd a'r hogia i gystadleuaeth nofio. O fewn dim roedd yn egluro ei gynlluniau am hyfforddi a dysgu plant y pentref i chwarae pêl-droed, gan wneud i mi deimlo'n reit eiddigeddus nad oeddwn yn hogyn yn Waunfawr unwaith eto. Ac nid ar chwarae bach y ces i anghofio imi ddweud unwaith, ar gwis teledu, fy mod yn dod o Gaernarfon yn hytrach na'r Waunfawr. Roedd yn falch iawn o'i ardal, ac roedd yn fodlon gweithio'n galed i roi yn ôl iddi hefyd.

Bu'n haf creulon wrth i'r ddau ffrind ein gadael, ond mi fyddan nhw yma am byth. Roedd 'na wên ar wynebau Iolo a Brian bob amser ac fel yna y bydda i'n cofio am ddau dwi'n falch o fod wedi'u hadnabod.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Rhai o'r plant a gymerodd ran yn y Carnifal

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £96.26 ym Mhenisarwaun gan Elisabeth Jones ac Ann Patterson. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

YSGOL GYMUNED. Croesewir yn gynnes iawn y rhai bychain a fydd yn cychwyn ar eu gyrfa addysgol yn y dosbarth Meithrin. Dymunir pob bendith a llwyddiant i'r rhai sy'n cychwyn yn Ysgol Brynrefail.

TRIP YR YSGOLION SUL. Dymunir diolch o galon i Elizabeth Jones ac Ann Patterson am drefnu trip yr Ysgolion Sul i Southport ym mis Gorffennaf. Bu'r tywydd yn eithaf caredig ac fe fwynhaodd pawb eu hunain yn ardderchog.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn ar Fedi 9 am 10.00 o'r gloch. Croesewir unrhyw blentyn bach sy'n dymuno ymuno â ni. Bu rhai o'r aelodau yn Hwyl a Sbri Ysgolion Sul Henaduriaeth Arfon yn Ysgol Brynrefail o dan ofal Ysgol Sul Capel y Rhos, Llanrug. Bu'r amrywiol weithgareddau wrth fodd y plant i gyd eto eleni. Diolch yn fawr.

Gobeithir trefnu gweithgaredd noddedig yr Hydref yma ar y cyd ag Ysgol Sul Ebeneser a Thabernacl Cwm-y-glo er budd addysg Katalau Singano o Kenya.

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i'r rhai ohonoch sydd wedi bod yn sal yn ddiweddar a deëllir fod Mr Mowll yn gwella wedi triniaeth yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion annwylaf atat tithau Amranwen.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau brwd i bawb ohonoch fu'n llwyddiannus yn arholiadau Lefel A, AS a ThGAU. Yn sicr mae athrawon yr Ysgol Gynradd ac Ysgol Brynrefail yn falch ohonoch ac yn dymuno'r gorau i chwi i'r dyfodol.

LLONGYFERCHIR Sioned Jones, Perthi, Nia Oliver ac Osian Dafydd ar dderbyn eu graddau hwythau ym Mhrifysgol Bangor. Llongyfarchiadau hefyd i Huw Tegid, Llywydd UMCB 2000-2001 am ei waith caled ac am ei arweiniad cadarn a'i ysbrydoliaeth i'r myfyrwyr Cymraeg. Pob dymuniad da i ti, Huw, yn dy swydd. Pob lwc i tithau, Sioned Lewis, yn dy swydd yn Ysgol Glan Clwyd.

Daeth llwyddiant ysgubol unwaith yn rhagor i Lois Eifion gyda'r piano. Cafodd farciau uchel iawn gyda'i Gradd 4. Ardderchog Lois. Llongyfarchiadau i tithau Mari Deiniol am lwyddo mor anrhydeddus gyda'r delyn. Braf oedd gweld cymaint o'r pentref bychan hwn yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych. Boed yn aelodau o Gôr Caernarfon, Côr Meibion y Penrhyn a Pharti Dawnsio Gwerin Caernarfon.

Llongyfarchiadau arbennig i Annest Eifion, Winllan ar ddod yn drydydd ar Ddawnsio Gwerin Unigol. Bu Ynyr ac Eurig o'r grŵp Epitaff yn hynod brysur a phoblogaidd yn ystod yr wythnos hefyd. Rydym oll yn ymfalchïo yn eich llwyddiannau addysgol a diwylliannol.

FFARWEL A CHROESO. Gyda thristwch y ffarweliwyd â Marina, John Eifion, Lois ac Annest a Benji'r gwningen o Stad Bryn Eglwys. Ond mawr obeithiwn mai yn ôl i Benisarwaun y dowch gan fod eich cyfraniad fel teulu i holl weithgareddau'r pentref wedi bod yn amhrisiadwy. Felly "Au revoir', yn hytrach na 'Ta-ta'. Brysiwch yn ôl.

Gyda llawenydd y croesawn Glen, Glenda, William a Kaitlin i 7 Bryn Eglwys. Y mae Glen eisoes yn un ohonom: wedi'i fagu yn 2 Bryn Eglwys. Gobeithiwn y byddwch yn hapus a dedwydd yn ein mysg.

URDD, ADRAN BENTREF. Bydd gweithgareddau'r Urdd yn cychwyn ar ôl gwyliau Diolchgarwch. Bydd manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

PWYLLGOR NEUADD. Cynhelir *Taith Gerdded Hanesyddol* ar drywydd y Celtiaid, nos Wener, Medi 14 am 6.00 – i gychwyn o'r Neuadd Gymuned – yng ngofal Leslie Larsen. dowch i werthfawrogi y llecyn hanesyddol yr ydym ni'n byw ynddo.

Tynnwyd Clwb Cant Gorffennaf a'r enillwyr oedd 1. Jean Roberts, Tai Croesion; 2. Siôn Dafydd, 7 Tai Arthur; 3. Delyth Williams, Pen-y-gaer.

Enillwyr mis Awst: 1. Wil Jones, 24 Bryntirion; 2. Kevin Jones, Cae Corniog Bach; 3. Osian Dafydd, Sycharth.

Gobeithir trefnu amrywiol weithgareddau ar gyfer tymor y Nadolig a gwerthfawrogir eich cefnogaeth.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU DEINIOLEN A'R CYLCH

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Undebol o'r Gymdeithas uchod yn Esglwys Santes Helen, Penisarwaun. Pleser mawr oedd gweld yr eglwys yn llawn yn y prynhawn a phlant y gwahanol esglwysi yn gwneud eu rhan mor ardderchog. Diolch i bawb fu'n eu hyfforddi ac i Mrs Bronwen Jones am arwain y cyfarfod mor effeithiol.

Cafwyd diweddglo gwych i'r diwrnod gyda'r Gymanfa am 6 o'r gloch. Swynwyd y gynulleidfa gan ganu gwefreiddiol 'Lleisiau'r Frogwy' dan arweiniad arbennig Mr Gareth Glyn. Ef hefyd oedd yn arwain y canu cynulleidfaol a gwnaeth hynny gydag arddeliad. Diolch hefyd i Mr Cyril Williams, yr organydd a Mr Derek Jones, y llywydd am eu gwaith rhagorol. Gwnaed casgliad yn y ddau gyfarfod tuag at y Gymdeithas.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu presenoldeb. Cafwyd diwrnod i'w gofio.

COLLED. Ar Orffennaf 1 yn dawel bu farw Lizzie Evans, Meirionfa, Pen-y-groes yn 93 mlwydd oed. Bu'n wraig dyner, mam ofalus, nain ddoeth, mam yng nghyfraith ddelfrydol a chwaer arbennig. Dathlai ei phen-blwydd ar ddydd Nadolig ac uchafbwynt yr Wyl iddi fyddai cyd-addoli â'r pentrefwyr yn Eglwys Santes Helen a derbyn cerdyn pen-blwydd gan y Parch Tegid Roberts. Bydd bwlch mawr y Nadolig nesaf. Cydymdeimlir yn ddwys â Dafydd ac Ann, Eurgain, Bedwyr ac Osian, Megan a James, Mark a Nicky ac â Rosie Jones, Pen-y-groes.

DIOLCH. Dymuna teulu Sycharth a theulu Pen-y-groes ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad o golli un mor annwyl.

NOSON GOFFI
Eisteddfod y Pentref

Nos Iau 20 Medi 2001
Am 6 o'r gloch
Neuadd yr Ysgol
Gymuned, Penisarwaun

Mynediad 50c i oedolion
(am ddim i blant)
yn cynnwys lluniaeth

Testunau a rhaglenni
Eisteddfod y Pentref
ar werth
Stondinau (Tombola,
teisennau, raffl, ayyb)

Cysylltwch ag
Elizabeth Woodcock
(01286) 870121
am fwy o fanylion



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 650349
(0589) 699901

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Ffôn: **871833** • Symudol: **07778 127394**

ORIEL CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £330.29 yn Waunfawr gan Iolo Hughes Roberts, Nan Hughes Roberts, Eirian Jones, Olwen Owen a Marian Jones. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mehefin: 1. £40: Jack Jones, Bod Idris; 2. £25: Haydn Jones, Rhandirmwyn; 3. £10: Bill Lewis, Tref Eilian.

Mis Gorffennaf: 1. £40: M.B. Davies, Bryn Eithin; 2. £25: Iona Williams, Llwydiarth; 3. £10: K.M. Jones, Gorwel.

Mis Awst: 1. £40: V.J. Davies, Bryngwyrfai, Betws Garmon; 2. £25: Gina Gwyrfai, 3 Croes y Waun; 3. £10: Gary Jones, Bodlondeb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Trefnwyd rhaglen ddiddorol iawn ar gyfer y tymor fydd yn cychwyn nos Lun, Hydref 8 yn y Ganolfan. Dymuniad y pwyllgor yw cael gwell cefnogaeth i'w hymdrechion i ddenu gwahanol bersonau i annerch. Yn ddiweddar bu sawl cyfeiriad at yr angen i gadw a hybu'r diwylliant Cymreig yn ardaloedd cefn gwlad Cymru ac, yn sicr, ni all neb wadu na fu'r cymdeithasau diwylliannol yn allweddol yn magu'r diwylliant hwnnw. Erfynnir felly am gefnogaeth pawb sydd yn pryderu am ffyniant ein diwylliant.

Cychwynnir y tymor gyda chyngerdd gan barti Clychau'r Grug, ac yn ystod y tymor ceir darlithoedd hwyliog ac addysgiadol gan William Owen, Borthygest; Maldwyn Thomas, Dr. Twm Elias yn sôn am 'Hen Gymeriadau Cefn Gwlad'; Richard Jones, Llanfechell yn 'Odli am hwyl' a'r Parchedig Trefor Jones yn darlithio ar un a fu, fel yntau, yn gyn-weinidog Moriah, Caernarfon, sef 'John Roberts, Llanfwrog'. Yn sicr, rhaglen at ddant pawb a'r cyfan am deirpunt – ni fu erioed cystal bargen! Estynnir croeso i'r hen aelodau ffyddlon gan wir obeithio y daw eraill o'r newydd y tymor hwn.

LLONGYFARCHIADAU

DATHLU PRIODAS ARIAN. Bu Steve a Carys Jones, Ty'n Cae yn dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr iddynt a phob dymuniad da i'r blynyddoedd i ddod.

PRIODAS. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gerallt Williams, Tros y Gors ar ei briodas â Kathy o Gaernarfon. Maent wedi ymgartrefu yn Stad Tŷ Hen.

LLWYDDIANT ARHOLIADAU Llongyfarchiadau i bob un o bobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn yr arholiadau y buont yn eu sefyll ddechrau'r haf. Daliwch ati i weithio'n galed yn eich gyrfa.

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Lowri Hughes, Pendas Eithin ar lwyddo gyda theilyngdod yng Ngradd 5 arholiad Piano.

Llongyfarchiadau i aelodau o Gôr Caernarfon sy'n byw yn y pentref ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

GENEDIGAETHAU. Ganwyd mab bychan, Marcus, i Meirion a Sandra, Stad Bryn Golau. Brawd bach i Elen ac ŵyr i Cyril a Grace, Stad Bro Waun a gor-ŵyr i Mr Richard Owen.

Mab bach, Owain, a anwyd i Bethan a Gerald, brawd bach i Jac ac ŵyr bach i Richard a Gwendoline, Bryn Golau.

Ganwyd Joshua, mab bach i Korrine a Neil, Llannerch, brawd bach i Jasmine ac ŵyr bach i Mr a Mrs Ackers, Mon Abri.

Ganwyd merch fach, Ella Nia i Clare a Matt, Adfa.

Mab bychan a anwyd i Lauretta a Roy, 10 Dol Erddi, brawd bach i Shanon a Brenden.

Llongyfarchiadau i deulu Tan y Waen ar enedigaeth eu plentyn bach.

Llongyfarchiadau i'r teuluoedd i gyd a phob dymuniad da a chroeso i'r rhai bach.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mrs Nellie Roberts, Stad Tref Eilian ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Cymerwch ofal ohonoch eich hun, Mrs Roberts.

LLWYDDIANT YN EI YRFA.. Llongyfarchiadau i Adrian Vaughan Roberts, 9 Bryn Golau ar ennill diploma Ymarfer Proffesiynol mewn nyrsio ym Mhrifysgol Bangor.

ADREF O'R YSBYTY. Yn ystod gwyliau'r haf bu Elin Lloyd, Tŷ Awelog a Shaun Brown, 2 Bryn Golau yn cael tynnu eu tonsiliau yn yr ysbyty. Gobeithio i'r ddau wella yn fuan er mwyn iddynt gael mwynhau rhywfaint o'u gwyliau.

Bu Mrs Grace Roberts, Stad Bryn Golau, Mr Emlyn Williams, Stad Croes y Waun a Mr Dafydd Thomas, Tan-y-Foel yn treulio cyfnod yn yr ysbyty ond maent wedi cael dod adref erbyn hyn.

Oherwydd gwaeledd bu Mrs Rhian Ll Jones, Stad Tref Eilian yn derbyn gofal mewn gwahanol ysbytai yn ystod y misoedd diwethaf. Anfonwn ein cofion cynhesaf ati gan ddymuno'r gorau iddi.

Cafodd Gavin Morris, Bryn Celyn dynnu'r plaster oddi ar ei fraich wedi iddo ei thorri, ac mae Mrs Valmai Evan, Rhoslyn yn gwella wedi iddi dorri ei ffêr.

Bydd Catrin Williams, Ael-y-bryn yn dod yn ôl i'r ysgol â'i braich mewn sling wedi iddi ei brifo.

PROFEDIGAETHAU. Cdydymdeimlwn â Mr Rob Jones a theulu Tan y Fron yn eu profedigaeth o golli ei fam a oedd yn b yw yn Lerpwl.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Mr John Ellis a theulu Ty'n Llidiart yn ei brofedigaeth o golli ei ei fam yntau.

Cydymdeimlwn â Mrs Arianwen Thomas, gynt o 8 Tref Eilian, Mrs Edith Ellis, Min y Nant ac â Mr Gwilym Madog Jones, Bro Waun a brodyr a chwiorydd eraill yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Mrs Grace Thomas a fu farw'n dawel yng Nghartref Preswyl Willow Hall, Caernarfon. Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at ei merch, Yvonne a'r teulu yn eu colled.

Fore Sadwrn, Gorffennaf 7, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd collodd Brian Parry, Creigle y frwydr yn erbyn ei salwch. Daeth tyrfa niferus i dalu'r deyrnged olaf iddo i Eglwys Sant Ioan ac i ddangos eu cydymdeimlad â'i briod a'i ddau fab, Shirley, Ieuan a Dafydd; ac â'i frodyr Dylan a Terry, a'i chwiorydd Betty, Yvonne a Sharon yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn ninnau'n ddwys â'r teulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn â Mr Frank Heaton, Nant y Mynydd yn ei brofedigaeth o golli ei briod ac â Susan, Tŷ Rardd yn coli ei mam.

Collodd y pentref un o'i gymeriadau hwyliog a pharod ei sgwrs ym marwolaeth Mr Iolo Huws Roberts, Bodrida. Cydymdeimlwn yn ddwys â Nan yn ei cholled drist.

CROESO ADREF i Elin Evans, Arfryn wedi iddi fod yn teithio o amgylch Awstralia a Seland Newydd am hanner blwyddyn.

YMDDEOLIAD. Dymunwn yn dda i Mrs Alma Jones, Tan y Fron ar ei hymddeoliad o'i swydd fel athrawes yn yr Uned cyn-ysgol ym Maesincla. Fydd 'na ddim cloc larwn yn ei deffro hi fore Llun, Medi 3.

DYMUNO'N DDA. Dechrau Medi bydd yr ysgolion a'r colegau yn agor eu drysau i gychwyn blwyddyn newydd arall. Dymunwn yn dda i bob un, o'r ieuenaf i'r hynaf fydd yn cychwyn ac yn ail-afael yn eu gyrfa.

Bydd Ms Gwenan Dafydd yn cychwyn fel Prifathrawes yr ysgol a Sioned Grabowski o Ffestiniog yn athrawes yn yr adran Babanod. Gobeithio y byddwch yn hapus yma yn ein mysg.

Diddorol oedd sgwrsio â Mrs Eryl Thomas pan oedd yn gadael ei swydd fel prifathrawes yr ysgol a deall ei bod hi a Mrs Janet Ellis wedi rhoi hanner can mlynedd o wasanaeth rhyngddynt, i ysgol Waunfawr.

NEWID AELWYD. Bu llawer newid aelwyd yn cymryd lle o fewn y pentref yn ystod yr haf. Dymunwn bob hapusrwydd i'r teuluoedd yn eu cartref newydd.

Dymunwn yn dda i'r Parch John Glyn, Sioned a'r hogiau yn eu cartref newydd yn ardal Llanllyfni. Rwy'n siwr y byddant yn cadw cysylltiad â'u ffrindiau yma yn y Waun.

CROESO i Mr Huw Owen a'i fam yma o Sir Fôn i gadw Storfa Tŷ Newydd.

DIOLCH. Hoffai John a theulu Ty'n Llidiart ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl, Mrs Elizabeth Ellis, Plas, Llithfaen.

DYMUNA teulu y ddiweddar Mrs Grace Thomas, 9 Tref Eilian (gynt) ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y galwadau ffôn, blodau, cardiau a'r rhoddion tuag at Ymchwil Cancr. Diolch arbennig i feddygon Meddygfa Waunfawr am eu gofal a'u caredigrwydd, ac i'r Parchedig Emrys Thomas a Mr Gwyn Davies am eu gwasanaeth yn yr amlosgfa, ac i Mr Gwyn Jones am ei waith cywrain a thrylwyr gyda threfniadau yr angladd.

CEUNANT

ARHOLIAD GRADD. Llongyfarchiadau i Sharon Roberts, Gwynfryn ar lwyddo i ennill gradd sodbarrth cyntaf mewn Twristiaeth ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddar. Pob hwyl i'r dyfodol.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR. . .

BYSIAU ARFON
LLANRUG

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.
Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Tri Steddfodwr

(Y Gwalch)

Nodiadau ymyl dalen a wnes ar ôl ymweliad â'r Eisteddfod pan oedd hi yng nghyffiniau Dinbych tua deng mlynedd ar hugain yn ôl (Ble mae eira llynedd?)

Unwaith erioed y bûm i mewn Eisteddfod Genedlaethol cyn dod am bnawn i'r Fflint, a hynny yn Llandudno, mewn cyfnod pan oeddwn i'n chwannog i roi fy arian ar geffylau petrusgar. Llwyddais yr adeg honno i gael mynediad i'r maes mewn fan pobydd fel gwas y gyrrwr, ac wedi ei gynorthwyo i ddadlwytho ei fara, cyrhaeddais y pafiliwn mewn rhyw awr *via* y ceginnau a phabell y Gwyddonwyr Cristnogol.

Ond roedd mynediad i faes Fflint, i un wedi ymestyn ei blentyndod yn beryglus o bell, yn anoddach o safbwynt ariannol gyda gwraig a phlentyn a choits bach ansicr ei holwynion.

Ond gynted ag yr oeddem ni ar y gwair gwyw, roeddem yn sylweddoli ein bod wedi cael gwerth ein prês. Dim angen gofyn cwestiwn y dinesydd eilradd arferol: 'Rargian, Cymro ydach chi?' Roedd y Gymraeg a chyfeillgarwch ar bob tu.

Daeth yn asmer cinio, ac y mae hi'n haws bwydo plant bach yn yr haf na'r gaeaf: Dim angen bib, ond rhoi clwt gwlyb ar eu bolia nhw yn y diwedd. Roedden ni'n eistedd ar gadeiriau rhwng dwy genhedlaeth, ac yr oedd yr henoed yn gofyn y cwestiynau arferol am Siôn: oedran ac yn y blaen, gofynnais innau i'r ieuenctid ble roedd y stondinau llyfrau.

'Beth ydach chi'n feddwl o'r nofelau Cymraeg cyfoes?' gofynnais.

'Wel...'

Wrth geisio diwallu chwilfrydedd Siôn i weld y ffenestri olwynog rheiny yn adeilad HTV daethom ar draws Endaf Emlyn a Wendy Williams, gyda'r rhai y byddwn yn gwneud rhaglenni ar gyfer nos Sadwrn ym Mhontcana. Bûm yn fyr o ddiolch iddynt am drefnu y wal honno o flaen y llwyfan ar ba un y buom yn falch o bwyso ein cefnau llafurus yn ddiweddarach, ac yno wrth wrando ar ferch yn llafurio i ddysgu Cymraeg y Tywysog i un arall, clywsom, 'Unwaith eto – fy steddfod, dy steddfod, eisteddfod...'

Ymddiheurais i Glyn Evans, *Y Cymro* a'i gydymaith wedyn am eu cadw mor hir oddi wrth eu cinio drwy ddatblygu trafodaeth ar y cenhedloedd amryfal. 'Pe bawn i'n anfon y plentyn yma i Omsk neu Tomsk,' meddwn, 'Beth fyddai o yn y diwadd?'

Yn y stondin lyfrau troisom, y silffoedd i waered, a phrynu hefyd. Fedrwn i wneud dim llai ar ôl i Siôn ystumio cas cyfrol swmpus. Aethom wedyn i babell y crefftau gwlad ac yno eisteddais ar fainc y gwehydd. I ddyn sy'n tueddu i gredu mai ar wyddorion yn unig mae'r byd yn troi, peth syfrdanol yw dod wyneb yn wyneb â chrefft fel hyn. Yn wir, eisteddais cyhyd nes casglu torf o gylch fy sgwyddau, gan gredu mae'n debyg mai fi oedd y crefftwr. Loes i mi oedd eu siomi.

Gwelais wedyn Huw Lloyd Edwards, hen gyfaill maboed fy mrawd o Benisa'rwaen, ac eglurodd i mi pam yr oedd wedi trosi drama Ibsen, a rhesymol oedd yr eglurhad. Serch hynny, i un sydd a'i gredo yn ei greu, roedd rhywbeth yn rhwbio yn groes. Dywedais wrtho mai nid gwaith i athrylith creadigol ydi trosi. 'Meddyliwch am funud am rhywun yn pensynnu wrth eich beddfaen ac yn ceisio dyfalu â gladdwyd un o ddramâu mawr y byd i'ch canlyn.'

Erbyn hynny roedd yr haul yn dechrau hollti ein hegni gyda'i gleddyf o dân. Roedd Siôn wedi mynd yn swrthyn, a daethom o hyd i *oasis* mewn tywod o dan dderwen. Yno gadewais fy nheulu a mynd i chwilio am gaban o ryddhad, ac wrth geisio dod o hyd i hwnnw euthum ar fy mhen i blisman cryslas smart, a gofynnais am gyfarwyddiadau. Tynnodd yntau ei helm a'i dal o fy mlaen. 'Cymar fenthyg hon,' meddai, ac erbyn gweld pwy oedd o ond un o gymdeithion fy mebyd innau o'r Weirglodd Goch, Penisa'rwaen. Wrth feddwl wedyn, yr oedd hi fel 'Old home week' chwedl Steinbeck pan ymwelodd yn ei henaint â Monterey, gan fod Glyn Evans, yn ddiweddarach, wedi dod i fyw gyda'i deulu i'r Waen Winau.

Ar fy ffordd i'r Caban tarawyd yr Anthem yn y pafiliwn, ond doeddwn i ddim mewn cyflwr i oedi. Sylwais fodd bynnag ar dri gŵr yn sefyll yn stond dalsyth a thei yr Awyrlu Prydeinig gan un.

Ar fy ffordd allan cyfarfyddais hen wreigan o'r mignant oedd wedi ffwndro rhwng dau ddrws. Ar ôl i mi ei rhoi ar ei llwybr gofynnodd,

'Deudwch i mi be' ydy'r Cymry ar wasgar 'ma?'

Gwnes ymdrech dda ar y fath wres i egluro naws y ddefod flynyddol, a mentrais ofyn yn y diwedd beth oedd hi'n feddwl oedd o.

'A deud y gwir,' meddai hi. 'Roeddwn i'n meddwl mai Cymry ar Wasgar fuasai nhw pe tasa rhywun yn taflu bom i'r Babell Lên.'

Roeddwn yn falch o ail-gyrraedd yr *oasis* i hel pethau at ei gilydd i fynd i lawr i'r orsaf. Ar y ffordd gwelsom griw o feddwon, rhai wedi gollwng eu llodrau am eu traed, yn canu. 'God bless the Prince of Wales'.

Ond ar y trên wrth ddychwelyd ymysg teithwyr y Gorllewin y clywsom y cwestiwn sydd yn werth tri ugain mil.

'Pa un o farchogion y Ford Gron sydd am roi ei le i fyny i Syr Cynan?'

(Mae casgliad o straeon adgofianol Y Gwalch 'Clouds of Time' *yn cael eu trosi ar gyfer cyhoeddwr ym Mharis.)*

YR ARDD gan Wraig y Tŷ

Dyma'r ardd ar ei gorau, y planhigion bach wedi cartrefu ac yn dangos eu lliw, ac amser i eistedd ac edrych arnynt a'u hedmygu. Bu'r sychder yn dipyn o boendod i'r garddwr, ond mae'r cawodydd trymion wedi rhoi hwb i bethau.

Mae yma ddau flodyn arbennig sydd yn rhoi pleser i mi, un tal o'r enw Campanula ac y maent yn ysgwyd yn yr awel, a bu'r Paeony, y rhosyn mynydd, yn hardd iawn hefyd.

Hoffaf lwyni blodau ag arogl hyfryd arnynt fel y lafant pêr, sy'n fendithiol iawn i'w rhoi yn y drôr ddillad yn y gaeaf.

Mis Awst ydyw mis y sioeau. Y mae gan y llenorion, cerddorion a'r beirdd eu Heisteddfod, a'r ffermwyr eu Sioe Frenhinol a ohiriwyd eleni oherwydd yr aflwydd o glwy'r traed a'r genau. Pam na chaiff y garddwyr hefyd eu Heisteddfod Genedlaethol, a dyna ydi'r sioeau mawr fel Amwythig, Southport a'r sioe fawr yn Chelsea yn Llundain. Ond garddwyr proffesiynol sy'n arddangos eu gwaith yno. Sioe fach y pentref sydd yn dangos gwaith y garddwr cyffredin a chongl i wraig y tŷ hefyd. Mae llawer o hwyl i'w gael yn y rhain.

Cofiaf am rai yn dadlau â'r beirniaid, y beirniaid yn canmol sylwedd a'r cystadleuydd yn mynnu mai maint oedd y peth pwysicaf; ambell i nionyn rhy fawr, ond wedi ei dorri yn dwll gwag yn y canol. Oes, mae llawer o hwyl i'w gael yn eisteddfod y garddwyr, a dim drwgdeimlad chwaith.

Hwyl ar fwyta'r cynnyrch y mis nesaf.

Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI - DRYSAU - CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

NHBC

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

A HEFYD
COFIWCH AM EIN
DeliBistro
Ffoniwch am fanylion

Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO
nos Wener olaf pob mis

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £93.33 yng Nghaeathro gan Marian Hughes. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

TYNFA MISOL. Enillwyr y Tynfa Misol ar gyfer mis Gorffennaf oedd: £40 (95): Selwyn Hughes, 7 Erw Wen; £25 (92): Vernon Jones, Llain Meddygon; £15 (69): Elwyn Griffiths, 14 Erw Wen; £5 (10): Gavin Jones, Cefn Plas Glan Gwna.

Oherwydd cyfraniadau cyson y cefnogwyr roedd Pwyllgor y Cae Chwarae yn medru cynnal y Miri Haf unwaith eto eleni.

PEN-BLWYDD: Llongyfarchiadau i Gareth Griffiths, Annedd ar ei ben-blwydd yn 21 oed ym mis Gorffennaf.

SWYDD NEWYDD. Mae Richard Jones, Tryfan wedi dechrau ar swydd newydd gyda Chyngor Gwynedd yng Nghaernarfon. Dim 'chwaneg o deithio i Langefni pob diwrnod.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yn Y Ganolfan, Waunfawr nos Iau, 19 Gorffennaf. Roedd y Cyng Clive James yn bresennol a chafwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Vera Roberts. Roedd y ceisiadau cynllunio canlynol wedi'u cymeradwyo:

Goleuo arwydd 'Esso' yn unig yn lle goleuo'r holl ganopi yn Garej Gwalia (ar apêl i'r Cynulliad);

Estyniad i Islwyn, Stad Glandwr;

Ail-leoli'r ardd diogel a safle parcio, Garej Gwalia.

Roedd y Cyngor yn gefnogol i'r cais cynllunio gan Garej Gwalia o godi estyniad bach i'r dde o ddrws y siop er mwyn cynnwys lifft.

Unwaith eto mae'r Cyngor yn pwyso ar Gyngor Gwynedd i ddarparu troedffordd oddi wrth y briffordd rhwng Bryn Eden a Phont Peblig er mwyn diogelu cerddwyr ar hyd ffordd brysur 60mya.

TAFARNWR ARALL. Croeso i Robin Fitzpatrick, rheolwr Tafarn y Porth, Caernarfon i Stad Glandwr.

RHYL, BUTLINS, RWAN...? Ers talwm bu gwibdeithiau Ysgol Sul yn anelu at Y Rhyl neu Butlins, Pen-y-chain. Llongyfarchiadau i Ysgol Sul Pantglas am ddewis dod i Gaeathro am bryd blasus i'r bobl ifanc a'u hathrawon yn Nhafarn Bryngwna.

CODI ARIAN AT ACHOS DA. Trwy haelioni timau cwis nos Fercher Tafarn Bryn Gwna ac ymdrechion taith gerdded noddedig ar hyd ffordd osgoi Llanllyfni gan Cath a Val, rhoddwyd £375 at Gronfa Charlotte Speddy ar gyfer triniaeth feddygol yn Texas.

RHEDWRAIG O FRI. Llongyfarchiadau i Jayne Lloyd, Bodawel ar ei llwyddiant fel aelod o dîm Merched Cymru a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth Rasio Antur y Byd yn Siapan yn hwyr ym mis Gorffennaf.

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Aaron Evans, Llecyn Clyd ar ei briodas â Nicola Lambert ar Awst 18. Bydd y cwpwl ifanc yn ymgartrefu yn Neganwy. Mae Aaron wedi cael swydd fel athro hanes yn Ysgol Uwchradd Prestatyn a bydd Nicola yn parhau i gweithio ym Mhencadlys Gorllewinol Heddlu Gogledd Cymru ym Maesincla. Bendith arnynt.

TYNFA MISOL. Enillwyr y Tynfa Misol ar gyfer mis Awst oedd: £40 (80): Sharon Griffiths, 23 Tai Glangwna; £25 (25): Alwen Roberts, 4 Caeathro Bach; £15 (85): Owie Williams, 19 Tai Glangwna; £5 (29) Hywel Evans, Rhyddallt Ganol.

EISTEDDFOD SIR DDINBYCH. Llongyfarchiadau i Eryl Jones a Huw Ceiriog ar ennill cystadleuaeth gwyddoniaeth a thechnoleg yn Ninbych eleni trwy greu peiriant gwneud cacen dan yrriant beic. Hefyd roedd Jen Ceiriog yn aelod o Gôr buddugol Eifionydd.

PEN-BLWYDD ARBENNIG IAWN Bydd Mrs Mary Albert Jones, 14 Glan Gwna yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ym mis Medi.

Llongyfarchiadau mawr i chwi a gobeithio y cewch ben-blwydd hapus iawn a diwrnod i'w gofio.

CODI ARIAN AR GYFER Y GANOLFAN. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar gyfer codi arian i dalu am y ddarpariaeth gymunedol yn adeilad y capel am 19.30yh nos Fawrth, 11 Medi yn Lolfa Tafarn Bryngwna. Croeso i bawb a'u syniadau.

NEWYDDION Y CAPEL. Erbyn rwan disgwylir fod y cytundeb moderneiddio adeilad y Capel fel canolfan aml-bwrpas wedi dechrau. Yn y cyfamser, yn ystod y gwaith adeiladu, bydd gwasanaethau yn cael eu cynnal yn Ystafell y Bwrdd, Garej Gwalia (i fyny'r grisiau, mynedfa gyferbyn â'r olchfa ceir a derbynfa'r gweithdy). Bydd Ysgol Sul am 11.00 bob bore Sul o 9 Medi ymlaen. Croeso i aelodau hen a newydd.

Disgwylir y bydd cyflenwad o bren '*tongue & groove*' o waliau'r Capel ar werth. Dylid cysylltu ag Ifor Hughes ar (01248) 674342.

GRANTIAU O'R CYNGOR CYMUNED. Dylid anfon unrhyw gais am gymorth ariannol o Gyngor Cymuned y Waunfawr i Glerc y Cyngor, Sian Thomas, Tŷ Ysgoldy Waunfawr erbyn 30 Medi.

LEFEL A. Llongyfarchiadau i Deian Parry Jones, Bryn Eglwys ar ei lwyddiant gyda'r arholiadau Lefel A.

Rhan o'r gynulleidfa ar ôl y gwasanaeth olaf yn yr adeilad presennol ym mis Gorffennaf.

Rhai o'r criw fu yn y cyfarfod agored ddiwedd Gorffennaf i sefydlu pwyllgor apêl i godi arian ar gyfer cost yr elfennau cymunedol yn yr adeilad aml-bwrpas newydd.

CEIROPODYDD
Mrs S. Groom MSSCh, MBChA
Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed
Triniaeth ar gyfer:
Traed Poenus; Croen Caled; Verrucae; Cyrn a Chroen Caled; Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thylino Traed.
Ffôn: **(01248) 605450** neu
07747 696267 (symudol)

Ar Ben Arall y Lein

Mae'n braf cael yr holl haul yma yn dydi? Os ydach chi eisiau lliw ydi hynny, ond y ffaith amdani yw os mai 'sgotwr ydech chi, glaw sydd eisiau, a does fawr ddim wedi disgyn er diwedd Mai, felly cyn belled a rwyf i yn y cwestiwn, segur yw'r enwair gan mai ar yr afonydd y byddaf fi wrth fy modd. Mae'n wir dweud fy mod yn ymddoddori yn y torgoch a'i dreialon yn Llyn Padarn. Yma yn ystod Mai a wedyn o ganol Medi y byddaf fi. Fy hun rwyf wedi cael ychydig Dorgoch yn gynharach, ac ardderchog oeddynt hefyd ar ôl bod yn y badell. Mae carfan gref heddiw yn dweud fod eisiau rhoi pob 'sgodyn yn ôl yn y dŵr, ond fy nghred yw fod eisiau cael blas ar ryw ychydig, yn does?

Adroddiad cyffredinol o Lyn Padarn yw fod pethau yn araf gydag ond ychydig iawn yn cael eu dal, ond drwy gysidro'r sychdwr, fel yna y bydd pethau hyd y gwnaiff y tywydd dorri. Mae'n siŵr, fel mae trefn pethau, y bydd y glaw yn disgyn pan fyddaf wedi mynd i ffwrdd am ryw ychydig o wyliau.

Heblaw am y 'sgsota araf, mae pethau eraill mae'r gymdeithas yn gysylltiedig â hwynt yn ardderchog, yn enwedig y newydd da aruthrol a gawsom yn nechrau Awst fod ein cais, fel rhan o gynllun Datblygu Pysgodfeydd Gwynedd, wedi bod ynl lwyddiannus o dan gynllun Amcan 1 a bod £435,000 i'w wario i wella cynefinoedd ein hafonydd.

Rydym nawr yn gweithio ar Rhan 2 o'r cynllun a fydd i wella cyfleusterau 'sgota. Mae pethau yn edrych yn galonogol iawn gan fod ffordd, man parcio a harbwr cychod hefyd newydd gael ei orffen ar Lyn Cwellyn. Yn ogystal, bydd gwaith yn dechrau yn yr wythnosau nesaf ar y llwybr pysgod newydd yn Nant Peris. Wrth gwrs hefyd rhaid peidio ac anghofio fod arian wedi ei neilltuo o dan gynllun Cwlwm Gwledig Cyngor Gwynedd i arbrofi ar fagu torgoch yn neorfa Crawia.

Rhaid diolch i'r canlynol am eu partneriaeth a'u cymorth ariannol: Asiantaeth yr Amgylchedd, Parc Eryri (Cynllun CAE), Cyngor Cefn Gwlad, First Hydro ac wrth gwrs, Cyngor Gwynedd, nid yn unig am eu cyfraniad ond am waith ardderchog swyddogion yr Adran Cynllunio a Datblygu Economaidd am eu harweiniad ac am baratoi'r cais, ar hyd llwybrau a oedd yn edrych yn droellog iawn ar adegau.

Yn ôl at y 'sgota: un rhan o'r dyfroedd sy'n 'sgota'n ardderchog yw Llyn y Dywarchen, gan fod stocio rheolaidd yno gyda brithyll yr enfys. Gan mai tri sgodyn yw'r mwyaf a ganiatëir y dydd, y bag trymaf sydd wedi cael ei nodi yw 11 pwys gan R. Rowlands, Waunfawr. Clywais hefyd fod Wilbert o Frynrefail wedi colli tri sgodyn mawr: buasai un o'r rhain, yn ôl y sôn, wedi bod yn fwy na thri sgodyn Dick hefo'i gilydd!

Drosodd ar y Llyfni mae rhediad boddhaol i'w weld ar bob llanw uchel, ond mae pysgod ofnadwy yn y môr, eto yn disgwyl am law. Bydd werth mynd draw ar y llif nesaf.

Ar Orffennaf 25, ac am y tair wythnos a ddilynodd, fe ddechreuwyd ar wersi sgota wythnosol ar Cwellyn a Dywarchen, ac mae diddordeb mawr yn y dyddiau yma gyda nifer fawr yn troi i fyny. Diolch i Gyngor Chwaraeon Cymru a Chyngor Gwynedd am noddi'r fenter. Buasai'n dda medru cael cymorth i gynnal sesiynau o'r fath yn flynyddol. Da o beth fuasai i rai sydd â rheolaeth ar glustnodi arian at amrywiol weithgareddau ddod draw i flasu'r awyrgylch ar y dyddiau yma. (Gobeithio bod lluniau o un o'r dyddiau yng nghamera'r *Eco*, yn ogystal â rhai o'r datblygiad ar Lyn Cwellyn).

Mae llawer wedi ei ysgrifennu am y Seiont, dyma gopi o waith diddorol a gefais gan John Hughes Jones, Crawia – gwaith RHR? Un o hen drigolion Crawia.

Wrth gloi rwyf wedi cael gwybodaeth fod rhai o aelodau'r clwb sydd wedi colli dant neu ddau wedi eu gweld yng nghors Glanrafon, yn ceisio dal llyffantod, gan fod hen gred os y buasech yn gafael mewn un mi fuasech yn cael dannedd pren. Mi fuasai'n well iddynt fynd at y deintydd o beth coblyn.

Llongyfarchiadau i un o bileri'r ddeorfa ar gael ei ben-blwydd yn ddiweddar, mae pawb yn gwybod faint yw ei oed yn awr!

H.P. Hughes

Clod i'r Eco

Annwyl Mr Hughes
Amgaeaf rodd i'r Eco fel gwerthfawrogiad o'r pleser yr wyf yn gael o'i ddarllen, gyda diolch i'r holl weithwyr sydd yn gyfrifol am ei gynhyrchu.
Dymuniadau gorau

Emrys Owen
23 Windsor Drive
Solihull

Ar Werth
Sinc molchi tegan (a choes i'w dal) – addas i Ystafell Molchi. Pris i'w drafod. Ffoniwch Caernarfon 673575

Darlith Agored Flynyddol 2001

Cynhelir y drydedd ddarlith flynyddol gan gymdeithas 'Cyfeillion Marconi' yn Y Ganolfan, Waunfawr nos Wener, 5 Hydref, 2001 am 7.30 o'r gloch, gyda chroeso cynnes i bawb.

Rhoir y sgwrs gan Mr Hari Williams C.Eng, MIEE ar y pwnc 'Marconi and the Welsh Connections'. Mr Williams yw awdur y llyfr *Marconi and his wireless stations in Wales*.

Ganwyd Mr Williams ym Mhorthaethwy ac yn awr mae'n trigo yn Portishead, Bryste.

Mae'r gymdeithas yn cynnwys aelodau cymdeithasau cymuned lleol, y cyhoedd yn gyffredinol ac ar wasgar, ac amaturiaid radio gyda'r amcan o osod carreg goffa ar safle hen Orsaf Di-wyfr Marconi yn Ceunant. Hefyd amcannir, gyda chydweithrediad Antur Waunfawr, osod allan ac arddangos hanes yr hen orsaf.

Manylion pellach gan Mr Gwilym O. Williams (01286 650275); Mr Dewi E. Roberts (01248 713647) a'r Trysorydd Mr Goronwy Hughes (01286 674839.

Yn gywir iawn
Dewi E. Roberts GW0ABL
Ysgrifennydd

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Mrs Mattie Hughes yn cael ei hanrhegu wrth ymddeol o fod yn arweinydd Parti Lleisiau Lliwedd

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

teithiau peris travel

STRYD FAWR LLANBERIS

(01286) 872777
annette@peris.co.uk

- Gwasanaeth effeithlon a chyfeillgar
- Gwasanaeth dwyieithog
- Gwyliau wedi eu teilwra i ateb anghenion yr unigolyn, teuluoedd neu grwpiau
- Trefniadau hedfan yn unig
- Penwythnosau yn theatrau Llundain
- Y pecyn cyflawn, h.y. bws-mini o ddrws y tŷ, trefniadau hedfan, gwesty neu apartment, llogi car, ac yswriant
- Arbenigedd mewn trefnu teithiau tramor i gorau ac i ysgolion
- Bargeinion munud olaf
- Teithiau tramor gyda chantorion o Gymru

Am fanylion pellach, ffoniwch **Annette** neu **Bethan**

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL LLANRUG.
LLONGYFARCHIADAU i Anti Mari, ein cogyddes, ar enedigaeth ŵyr bychan, Dion. Mae hi a Mr Davies wedi gwirioni ar fod yn daid a nain.
Yn rhifyn mis Gorffennaf roeddym yn dymuno'n dda i'r timau tenis a oedd yn mynd i gynrychioli'r ysgol yn nhwrnament Gogledd Cymru ym Mae Colwyn yn ystod y mis. Wel, mae'n braf llongyfarch y plant ar eu llwyddiant yno a'r tîm genethod Bl 5 a 6 a ddaeth i'r brig yno. Bydd dwy o'r tîm yn gadael am ysgol Brynrefail ddechrau'r tymor. Cariwch ymlaen yno, genod.
DIOLCH. Ddiwedd y tymor ffarweliwyd â Mrs Myfanwy Parry a oedd wedi bod yn athrawes ym mlwyddyn dau am dymor a hanner. Diolch iddi am ei gwasanaeth. Byddwn yn croesawu Mrs Nia Oliver yn athrawes i'r dosbarth ddechrau Medi.

MARWOLAETH. Yn dawel yn Ysbyty Bryn Seiont ar Orffennaf 2 bu farw Mr Thomas Williams. Bu yn byw am gyfnod hir yng Nghartref Llys Eiddon ac roedd yn adnabyddus i lawer tra yn mynd am dro ar hyd y Lôn Groes.

Estynnwn ein cydymddeimlad diffuant â'i fab John, Menna a'r plant i gyd, Fferm Minffordd.
LLONGYFARCHIADAU i Dion Owen, Hafod y R hos, Ffordd Llanberis ar ei lwyddiant yn yr arholiadau TGAU oddi wrth y teulu i gyd. Pob llwyddiant i ti yn dy dymor newydd yn yr ysgol.
DIOLCH. Dymuna teulu y ddiweddar Mrs E. P. Pugh, 14 Glan Moelyn ddiolch o galon i ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth ddiweddar. Diolch hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at Ward Aran, Ysbyty Gwynedd.
DIOLCH. Dymuna Mrs Lily Aubrey Horman, Venice, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 80 oed.
SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £414.10 yn Llanrug gan Mair E. Jones, Julie Jones, Beryl Thomas, Avril Jones, Meirwen Lloyd, Mair Parry, Gwenda Roberts, Eirianwen Thomas, Mary Roberts, Bethanne Williams, Mair W. Williams, Alf Parry a Nan Humphreys. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.
PRIODAS. Dydd Iau, Awst 2 priodwyd Iolo Eilian, 3 Bryn Moelyn ag Aislinn Abernethy o Dungannon, Gogledd Iwerddon. Aeth criw mawr o deulu a ffrindiau i Dungannon i'r briodas. Maent wedi ymgartrefu yn Pen y Cae, ger Wrecsam, a dymunwn y gorau iddynt.
Ar ddydd Sadwrn, Awst 4 priodwyd Maldwyn Morris, Cefn Rhythallt, Ffordd yr Orsaf a Sian Griffiths o Lanberis yng Nghapel Coch Llanberis. Maent yn byw yn Nant y Glyn a dymunwn bob hapusrwydd iddynt hwythau.
DIOLCHIADAU. Dymuna Iolo ac Aislinn ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob dymuniad da, am y cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas.

Hefyd dymuna Maldwyn a Siân ddiolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd, yn gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniwyd ar eu priodas hwythau.

Mae Arthur a Dilys Jones, 12 Hafan Elan yn dymuno diolch i bawb am yr anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ganddynt yn dymuno yn dda iddynt ar ymddeoliad Dilys ac hefyd yn eu cartref newydd. Diolch yn arbennig i Mrs Ellen Jones, Mrs D. Fisher, Mrs C. Davies a Mrs C. Williams am drefnu Cronfa Tysteb Ymddeol ac am y wledd yng nghanolfan Hafan Elan. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd mor hael i'r gronfa.

Iolo Eilian, 3 Bryn Moelyn Llanrug ac Aislinn Abernethy o Dungannon, Gogledd Iwerddon ar achlysur eu priodas ar Awst 2 eleni.

Fe ddymuna Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch am yr holl flodau a diolch i'r plant.
DYMUNIADAU DA i Wayne Mathew Kift, mab Sylvia a brawd Ryan, 15 Tal y Bont sydd ar hyn o bryd yn y John Radcliffe Infirmary yn Rhydychen wedi derbyn triniaeth lawfeddygol. Mae wedi bod yn wirioneddol wael ac yn debygol o fod yn yr ysbyty yma am fisoedd eto. Brysia wella Wayne.

Hoffem longyfarch plant a phobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant mewn amrywiol arholiadau. Dymuniadau gorau i chwi i gyd i'r dyfodol.
CYDYMEIMLWN â Mr Owen Jones, Y Wern, Ffordd yr Orsaf yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer yn ddiweddar.

Hefyd â Brian, Eirian a'r hogiau, 20 Glanffynnon yn eu profedigaeth hwythau o golli tad – Brian o Bro Wyled, Rhostryfan.
DA IAWN. Daeth Mari Plemming, Bryn Moelyn yn gyntaf am addurno pot blodau mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Seiont Nurseries ar ddiwedd tymor yr ysgol. Dymuna'r teulu ddiolch i'r cwmni am y gystadleuaeth ac am ddod â phlanhigion i'r ysgol.
BRYSIWCH WELLA Mrs Mennai Jones, Sycharth, Gwelfynydd sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri.

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n wael, Brysiwch wella.
DYMUNA trigolion Hafan Elan ddymuno yn dda i Mrs Betty Peris Jones, 19 Hafan Elan; Mrs Nesta Wyn Jones, 16 Hafan Elan, a Mrs Hilda Cepas, 8 Hafan Elan.
Mae Betty Peris Jones wedi cartrefu yng Nghartref Gwynfa, Caernarfon, Mrs Nesta Jones a Mrs Hilda Cepas yn Plas Pengwaith, Llanberis. Cofion gorau a phob bendith iddynt.
Hefyd brysiwch wella Mrs Jennie Hughes, 17 Hafan Elan, sydd yn aros dros dro yn Plas Ogwen, Bethesda. Dymuniadau gorau i Mrs Jane E. Parry, 21 Hafan Elan sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.
PLAID CYMRU. Bydd cyfarfod cyntaf y tymor o Gangen Llanrug a'r Cylch yn Sefydliad Coffa Llanrug ar nos Fercher, Medi 26 am 7.30 o'r gloch. Y siaradwr fydd Y Cynghorydd Seimon Glyn a dynnodd gymaint o sylw yn ddiweddar at broblemau cefn gwlad a'r diwylliant Cymreig. Dowch i glywed ei neges: mae croeso cynnes i bawb.

Daeth yn amser casglu tâl aelodaeth unwaith eto, a bydd aelodau yn dod o gwmpas yn ystod mis Medi. Croeso mawr i aelodau newydd, yn enwedig i bobl ifanc. Cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Olwen Llywelyn (650200) neu dowch i gyfarfod Seimon Glyn ar Fedi 26.
DIOLCH. Dymuna John, Menna a theulu y diweddar Thomas Williams ddiolch o galon i'r perthnasau a ffrindiau am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a fynegwyd tuag atynt. Diolch arbennig i Mr a Mrs Gay a staff Cartref Llys Eiddon; staff Cartref Plas Pen Gwaith a staff Ward Gwyrfai, Ysbyty Bryn Seiont am eu gofal tyner a diflino. Diolch i'r Parchedigion Dafydd Hughes a Trefor Lewis am eu gwasanaeth teimladwy; i Gareth Roberts am chwarae'r offeryn ac i Gwynfor Jones am drefniadau trylwyr a boneddigaidd. Diolch o galon i bawb.
LLONGYFARCHIADAU i Ceri Meredydd, Glan Gors ar ei llwyddiant yn arholiad chwarae'r piano Gradd 4 yn ddiweddar. Da iawn, dal ati, Ceri.
LLONGYFARCHIADAU i ddwy wyres Mrs Persis James, Bryn Mair, sydd wedi graddio yn feddygon. Mae Ann James yn cychwyn ei gyrfa yn Ysbyty Burnley ac Angharad James, ei chyfnither, yn Ysbyty Torquay.
GWERTHFAWROGIAD O WASANAETH YR HEN CO-OP. Daeth siop y Co-op i ben. Dyna golled fawr i'r pentref, yn enwedig i'r rhai oedrannus. Rwy'n siŵr ein bod fel pentrefwyr yn datgan ein diolchgarwch twymgalon i'r staff trwy'r blynyddoedd am eu gwasanaeth trylwyr a siriol. Bydd yn chwith garw i lawer ohonom.

Dealliwn fod 'firm' arall am gymryd drosodd – felly gadewch inni eu cefnogi fel y bydd y gwasanaeth yn aros yn y Pentref.

Criw o ieuenctid yn cael eu derbyn yng Nghapel y Rhos: Iola, Celfyn, Natalie, Dafydd, Carl, Ceri, Huw a Guto.

CAPEL Y RHOS. Yn ystod oedfa arbennig ar 1 Gorffennaf cynhaliwyd Gwasanaeth Derbyn Ieuenctid yr Eglwys dan arweiniad y Parch Dafydd Lloyd Hughes. Cafodd wyth o ieuenctid eu derbyn yn gyflawn aelodau gan dderbyn eu Cymun cyntaf: Iola Hughes, Celfyn Edwards, Natalie Elisha, Dafydd Gwyn Thomas, Carl Griffiths, Ceri Meredydd Williams, Huw MacKinnon, Guto Rhun Wynne. Yn ystod yr un gwasanaeth cafodd Gethin, mab Irfon a Bethan Jones, Efailnewydd a brawd i Anna Wyn sydd yn mynychu'r Ysgol Sul yn gyson, ei fedyddio.

Y Diweddaraf gan Fudiad 'Sbardun ym Methel, a'r Cyffiniau

(sefydlwyd ers blwyddyn bellach, er mwyn gwarchod y cyhoedd a'r pentref ran diogelwch ar y ffyrdd)

Ar Gorffennaf 16 eleni anfonwyd diolchiadau ar ran Mudiad 'Sbardun ar R. B. Daimond, Prif Syrfewr Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd am (a) osod marciau *Araf* ar y blociau tawelu trafnidiaeth ar y briffordd drwy'r pentref; (b) am ddechrau ar y gwaith tarmacio, a gwelliannau, rhwng y Llythyrdy a Chongol Dywyll ac i lawr heibio'r Neuadd Goffa ar groesffordd Tref Gof. Yn ogystal tynnwyd sylw at y materion canlynol:

1. A fydd tarmacio gweddill y ffyrdd ym Methel yn digwydd? A welir tarmacio'r ystadau? A fydd Cynllun tymor byr a hir ar gael?

Ar Awst 9 2001 atebir yr uchod gan G.M. Jones, Syrfewr Ardal Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd. *Credaf*, ebe ef, *o'r archwiliadau rheolaidd fod gwyneb y ffyrdd hyn a restrir gennych yn foddhaol. Wrth gwrs, os oes nam uniongyrchol yn dod i fy sylw mi fydd yn derbyn y sylw priodol.*

Gyda chyflwr wyneb-tarmac yr Ystadau mewn golwg dywedir ganddo: *Yn anffodus nid yw'n bosibl cyhoeddi rhestr o waith cynnal fel hyn gan ei fod yn cael ei benderfynu'n flynyddol gan y Pwyllgor Ardal. Mae hefyd wrth gwrs, yn gallu newid oherwydd amgylchiadau fel, er enghraifft, tywydd, maint cyllid ac yn y blaen.*

2. A grëir llwybr o'r pentref at Erw Bian yn y tymor byr neu hir?

G.M. Jones, 09.08.2001 eto: *Yr wyf eisoes wedi ymateb ynglŷn â'r llwybr hwn mewn gohebiaeth i chwi dyddiedig Rhagfyr 1, 2000. Ymhellach i hyn hoffwn eich hysbysebu nad ydyw'n bosibl ychwanegu at y rhestr Mân Welliannau tan y bydd y rhestr flaenorol wedi ei chwblhau. Pryd hynny bydd yn bosibl i'r Aelodau Lleol roi cais newydd ymlaen er ystyriaeth.*

3. A fydd newid ar yr arwyddion *Gweirio cyflymdra* ar y briffordd ger ymylon pentref Bethel, a chael arnynt Gymraeg mwy gwerinol a haws i'w ddeall, e.e. *Gyrrwch yn ofalus* fel ag a geir yng ngweddill Gwynedd?

Dyma ateb R. B. Daimond, Syrfewr Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd ar Orffennaf 31 eleni: *Credaf fod yr arwyddion presennol 'gweirio cyflymdra' yn rhoi neges glir i fodurwyr bod angen cadw i'r cyfyngiad cyflymdra. Dylai unrhyw gais am arwyddion newydd yn cynnwys 'gyrrwch yn ofalus' ddod trwy'r Cyngor Cymuned ac fel yr eglurwyd yn fy llythyr dyddiedig Rhagfyr 21, 2000 bydd angen cyfraniad ganddynt tuag atynt.*

4. Pryd y dechreuir ar y gwaith o altro'r briffordd ger Gors Bach?

Etyb yr Adran Briffyrdd 31.07.2001 fel a ganlyn: *Mae cais am arian i'r cynllun gwella'r gyffordd ger y Gors Bach eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cyngor ond, hyd yn hyn, heb fod yn llwyddiannus. Credaf y bydd cais tebyg yn cael ei wneud at y flwyddyn ariannol nesaf hefyd.*

5. A wnewch roddi gwybodaeth inni fel Mudiad yngylch cyflymdra trafnidiaeth rhwng Llys Myfyr a'r mynediad i ystad Bro Eryr; gosodwyd mesurydd cofnodi cyflymdra traffig ger Eithinog yn ystod 07.01.2001.

Ateb 31.07.2001 _ Mewn termau traffig mae '85% percentile' yn ystadegau hynod o bwysig – sef y cyflymdra mae 85% o'r drafnidiaeth sy'n teithio. Mae'r ystadegau yr ydych yn cyfeirio atynt yn dangos bod 85% o'r cerbydau yn symud ar 31mya neu'n is ger Eithinog.

6. Cais ar i'r Adran Briffyrdd greu llwybr beiciau hyd at Dyddyn Hen.

Ateb 31.07.2001: *Nid yw'r lleoliad yma wedi ei gynnwys yng 'Nghynllun Trafnidiaeth Gwynedd' am lwybr beiciau felly nid oes bwriad ar hyn o bryd i wneud unrhyw waith yma.*

Ar ran Mudiad 'Sbardun
D.G. (Cymru Annibynnol)
1 Tan y Ffordd
Bethel LL55 1YB
(01248) 670876)

Parhad o dudalen flaen

rannau allweddol fel Fenws yn 'Orpheus in the Underworld', Kate yn y 'Pirates of Penzance' Orlofsky yn 'Die Fledermaus', Hermia ac Oberon yn 'A Midsummer Night's Dream' a Vera Bronel yn 'The Consul;' gan Menotti. Tipyn o brofiad mewn cyfnod mor fyr.

Ar hyn o bryd mae Siân yn cyfuno y gwaith pleserus o fagu Catrin Alaw a Siôn Wyn (heb anghofio edrych ar ôl ei gŵr Alan) gyda mynych ymddangosiadau ar lwyfannau cyngerdd ac Oratorio. Nid yw hi'n ddieithr i'r maes hwn gan iddi dderbyn rhannau allweddol fel yr Angel yn 'The Dream of Gerontius' gan Elgar, yn cael ei berfformio yn y Free Trade Hall Manceinion, a rhan Gloria gan Vivaldi yng Ngŵyl Mannin, Ynys Manaw. Yn ychwanegol at hyn fe gymrodd ran yng ngweithiau'r meistri fel Dido ac Aeneas (Purcell); Messiah (Handel); Mass in B Minor (Bach); Requiem Mass in C (Mozart); a 'The Magnificent Christmas Oratorio'. Dim rhyfedd felly i Gwmni Sain fanteisio ar y fath dalent.

Ond talent wedi ei feithrin yma ym Mro *Eco'r Wyddfa* ydyw. Hogan ei milltir sgwâr ydi Siân, hogan sydd bob amser yn ymfalchïo yn ei magwrfa a'i chefndir. Talent gynhenid ydyw talent gerddorol Siân, ond y gymdeithas unigryw y bu'n rhan anatod ohoni yn ei dyddiau cynnar a'i mowldiodd yn gyflwynwraig mor naturiol ac yn berfformwraig gerddorol mor ddeinamig.

Mae ei dewis o gerddoriaeth yn gymeradwy iawn, ac mae'r amrywiaeth yn sicrhau fod yna rywbeth at ddant pawb. Cwta ddeuddydd gymerodd i recordio'r un gân ar bymtheg, a hynny yn y Tabernacl, Machynlleth dan gyfarwyddyd y cynhyrchydd a'r cyfeilydd Annette Bryn Parri. Ceir yma gyflwyniadau o'r clasuron ynghyd ac alawon traddodiadol Cymreig a rhai modern.

Mae'r amrywiaeth yn tanseilio ehangder ei dawn lleisiol. Daw ei thynerwch a dyfnder ei hangerdd i'r amlwg yng ngweithiau Aaron Copland, Rhys Jones, Robat Arwyn a threfniant Annette Bryn Parri o Suo Gân. Ond mae hefyd yr un mor gartrefol yn ei hymdriniaeth ddeallus o'r clasuron poblogaidd:Le Violette (Scarlatti); Vergeblishes Standshen (Brahms); Non so piu cosa son (Mozart) a Una Voca poco fa (Rossini). Mae ei chyflwyniad o'r alawon Cymreig poblogaidd megis Cwm Pennant (Gutyn Mawrth); Gweddi'r Arglwydd (Eric Jones) a Tosturi Duw (W. S. Gwynn Williams) yn cymharu'n ffarfriol ag unrhyw gyflwyniad a glywais. Ond mae un yn sefyll allan. Cân hyfryd a'm swynodd tu hwnt, ac sydd eisoes wedi ei selio ar femrwn y cof – Adre'n Ôl, cyfieithiad gan Rol Williams o 'Bring Him Home' gan Schonberg/Kretzmer a Boublil. Dywed Dafydd Iwan yn ei gyflwyniad ar glawr y ddisg y bydd 'ei chynulleidfa wrth eu bodd gyda'r recordiad', a bod 'y gynulleidfa honno bellach yn cynnwys cannoedd o ymwelwyr a gaiff y pleser o glywed Siân yn canu yn ystod gwyliau haf bob blwyddyn'. Gadewch i ninnau sicrhau y bydd gwerthiant y ddisg yn y dyffryn yn rhagori ar y gwerthiant i'r ymwelwyr.

Arwel Jones

YMDDIHEURIAD

Mae'r Golygyddion wedi gorfod cadw amryw o gyfraniadau – yn cynnwys **llythyrau, cerddi a lluniau,** tan y rhifyn nesaf, oherwydd diffyg lle.

BEICS WIL

BEICIAU NEWYDD
AC AIL LAW
- TRWSIO • CYNNAL
• PARTIAU

SIOP AROSFA, WAUNFAWR (01286) 650 723

G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd – 7 diwrnod yr wythnos
PLUM24CYM
Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrwms
Gwaith cynnal a chadw o bob math
Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

CROESAIR MEDI



Un ar draws ydi'r byraf o'r holl atebion y cyfeirir atynt mewn ffurf mathemategol.
DS. ***Mae'r X yn arwydd fod angen lluosi, ÷ i rannu, ayyb.***
Ar draws:

4. Ffowlyn o'r blaned Neifion? (3)
6. 37 ar draws X [3+4] (6)
12. Un o'r talpiau bach ar gromosôm (5)
13. 1 ar draws X 12 X 5 (5)
14. Dyn du yn turio'n ddi-ddiwedd (5)
15. 6 ar draws X 13 X 4 (7)
16. Diwedd caled i 14 ar draws (3)
17. Dolur mae rhywun yn siŵr o'i weld? (5)
18. Mae syr a'r gard meddw yn enllibus (8)
21. Barn derfynol am yr arian a roddir yn y capel? (8)
25. Y cread yn chwalu wrth i'r bêl daro? (5)
27. Strancio, a gwrthod mynd (5)
28. Rhan o bennod yn y Beibl (5)
30. 15 ar draws X 10 X 10 X 10 (8)
31. Maes corsog (8)
33. Oherwydd ... (5)
35. 15 ar draws ÷ 12 (3)
37. 18 i lawr X 8 X 3 (7)
40. Cwt ieir (5)
41. Seiniau tebyg i'w gilydd mewn barddoniaeth (5)
42. Sawr o garol? (5)
43. Awst a Medi, e.e (3,3)
44. Lliw y gwaed (3)
45. Meddyginiaeth (6)

I Lawr:

1. Offeiriad mewn eglwys gadeiriol (5)
2. Rhai sy'n rhedeg yn araf o ran pleser (7)
3. Ty yn nannedd y gwynt (5)
5. Dail poethion (5)
7. Diwyd (5)
8. Arbenigrwydd neu hynod-rwydd person (9)
9. Codwm (7)
10. Cân o fawl i Dduw (4)
11. Nifer o 4 ar draws (4)
18. 13 ar draws X 15 X 4 (3)
19. Dyn od – ffaith y gellir casglu ffaith arall ohoni! (5)
20. Un na sy'n credu yn Nuw... (5)
22. ...a'r hyn a wna y rhai sydd yn credu tra ar eu gliniau (5)
23. Dôl un wag? (5)
24. Canol eofn y negro! (3)
26. Mathau o almanac a gyhoeddir o'r newydd yn flynyddol (9)
29. Y gwryw o'r bodau dynol (3)
30. Cynrhonyn (7)
32. Rhoi bywyd mewn rhywbeth (7)
34. Ystafell i weithio ynddi yn y tŷ (5)
35. Cacenni offrwm (4)
36. Glanhau ceirch mewn Persil i olchi'r llwch i ffwrdd! (5)
37. Costus (4)
38. Curo yn ffyrnig (5)
39. Y rhan o rywbeth y cydir ynddo, ee clust y gwpan (5)

Derbyniais 25 o atebion i groesair Gorffennaf gan gynnwys tri chynnig di-enw! Ni allaf felly enwi ond y gweddill, sef Nansi Davies, Rhuthun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Pat Owen, Caerfyrddin; Olwen Owen, Llanberis; Mair Evans, Caernarfon; Eluned Jones, Trefor; Ceridwen Williams, Llanrug; E. E. Jones, Rhoshirwaun; N. Hughes, Cwm-y-glo; Margaret W. Roberts, Caernarfon; Catherine A. Jones, Rhiw; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Alice M. Griffith, Dinorwig; Jennie Williams, Clynnog; G. Gill, Bangor; H.O. Hughes, Pwllheli; Rosemary Williams, Tregarth; Alvona Jones, Prestatyn; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Gwen Davies, Y Wirral; Moreen Lennon, Llanberis; Nan Owen, Llanberis; I. Jones, Borth-y-gest; Joan Hughes-Jones, Rhiw.

DYDDIADUR MEDI

6 Iau **DEINIOLEN.** Cyfarfod y Chwiorydd am 2 yn Ebeneser.

9 Sul: **PENISARWAUN.** Ysgol Sul Undebol Bosra'n ail-gychwyn am 10.
DEINIOLEN. Yr Ysgol Sul Undebol yn ail-gychwyn am 10 yn Ebeneser.
CAEATHRO. Yr Ysgol Sul am 11 y bore.

11. Maw **CAEATHRO.** Cyfarfod i godi arian tuag at y Ganolfan am 7.30 yn Lolfa Bryngwna.

12 Mer: **BETHEL.** Merched y Wawr – Twrio ym Methel gyda Mr S. Bowyer.

13 Iau: **BRYNREFAIL.** Y Gymdeithas am 7 o'r gloch gyda Mr Dafydd Wh. Thomas.

14 Gwe: **PENISARWAUN.** Taith Gerdded Hanesyddol i gychwyn am 6.00 o'r Ysgol Gymuned.
BETHEL. Noson Bingo i ail-sefydlu'r Clwb 100.

15 Sad: **WAUNFAWR.** Dathlu Dydd Owain Glyndŵr yn yr Antur am 7 o'r gloch.

16 Sul: **BETHEL.** Cymanfa Ganu am 7 o'r gloch yn Eglwys Llanddeiniolen, gyda Chôr Lleisiau'r Gweunydd.

17 Llun: **BRYNREFAIL.** Sefydliad y Merched yn cyfarfod yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo.
DEINIOLEN. Merched y Wawr yn yr Ysgol Gynradd gyda Mr Bryngwyn Griffith.

22 Sad: **WAUNFAWR.** Ras yr Antur am 2 o'r gloch.

26 Mer: **LLANRUG.** Plaid Cymru. Sgwrs gan y Cynghorydd Seimon Glyn.

28 Gwe: **WAUNFAWR.** Gŵyl y Gwyll yn yr Antur am 7 o'r gloch.
LLANRUG. Eglwys Sant Mihangel. Cyngerdd yn Ysgol Brynrefail am 7 o'r gloch.

Byddaf yn falch bob amser o dderbyn ambell sylw ynghlwm wrth eich atebion, megis, 'Diolch byth fod 2 fis i wneud hwn!' neu 'Mae o'n andros o anodd.' Rwy'n gobeithio fod eich tafod yn eich boch wrth eu hysgrifennu – wedi'r cyfan, pa bleser sydd mewn datrys croesair hawdd?

Enillydd y mis ydi Catherine A. Jones, Tŷ Capel, Pencaerau, Rhiw, Pwllheli. £5 a llongyfarchiadau i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Medi, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Medi 17.

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
Bob nos Fercher tra bod effaith y Clwy Traed a'r Genau'n parhau: 2 BRIF GWRS am BRIS Y PRYD DRYTAF
Mwyafrif o 6 ar gyfer pob bwcin

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU . . .
RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER POB ACHLYSUR
* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188

CHWARAEON

Croeso – a Dechrau Addawol

Does fawr o newyddion o Gymru yn cyrraedd Bwlgaria, felly roedd yn rhaid aros nes cyrraedd adref i ofyn y cwestiynau pwysig: pwy enillodd y Gadair; gafodd Selwyn ddyrchafiad, a sut siâp sydd ar dîm pêl-droed Bethel?

Erbyn hyn mae cylch pêl-droed y pentref yn gyfan. Ers sawl tymor bu nifer yn gweithio'n ddyfal gyda'r carfanau ieuenctid yn eu hyfforddi ond yna, heb gemau pwrpasol i rai dros 16 oed, roedd nifer o chwaraewyr addawol y pentref yn ymuno â chlybiau eraill yr ardal. Mae tîm oedolion wedi ei ail-sefydlu yn y pentref erbyn hyn. Y tri symbylydd – tri gŵr doeth gobeithio – oedd Trefor Foulkes a'i ddau frawd yng ngyfraith Andrew ac Alan Cefn.

Penderfynwyd galw cyfarfod cyhoeddus a sefydlu pwyllgor a fuasai yn cynnwys arbenigedd nifer â chysylltiad â'r adran ieuenctid. Cafwyd ymateb da a dewiswyd swyddogion a phwyllgor gweithgar dan lywyddiaeth Dewi Rowlands a chadeiryddiaeth Trefor Foulkes. Cafwyd arian byw o drysorydd yn Teewyn Hughes a chafwyd ymateb rhagorol i'r clwb cant. Yr ysgrifennydd yw Huw Morgan.

Yn ymwneud â'r tîm ar y cae mae John Williams yn rheolwr, Alwynne Jones yn hyfforddwr ac mae'r swydd hynod bwysig o geidwad y cwmg hud gan Iolo Morgan. Ysgrifennydd y gemau yw Dylan Williams.

Wedi i Eifion Jones, y prifathro, roddi caniatad i'r tîm chwarae ar faes yr ysgol derbyniwyd y cais i ymuno â Chynghrair Heritage Homes Cylch Arfon. Denwyd cymysgedd o chwaraewyr – yn llcol ac o'r pentref, gan gynnwys ambell i 'hen ben' a 'choesau ifanc'. Trefnwyd dwy gêm gyfeillgar, gan guro Llanfairfechan 2-1, a gêm gyfartal 3-3 yn Neiniolen.

Diolch i Lanbabo am fenthyg crysau am y gêm yma. Erbyn hyn drwy nawdd Kevin y Bedol, a Sian Stokes (Bysiau Arfonia) mae'r cit newydd crand wedi cyrraedd. Dechrau addawol i'r tymor, a chryn edrych ymlaen i'r gemau go iawn.

Cafwyd gemau yn erbyn timau profiadol i ddechrau'r tymor ond mae'r canlyniadau wedi bod yn ffafriol iawn. Roedd Llanystumdwy yn enillwyr y Cwpan Iau ond Bethel a orfu o 4-1, gyda goliau Iwan Trefor (2), Barry Lund a Dewi Williams (Cefn Gwyn) yn rhoi dechreuad delfrydol.

I Fangor i chwarae Mynydd Llandegai wedyn: gêm glos oedd hon ond eto yr hogiau'n ennill 3-2, diolch i goliau Dewi a Marc Williams a Barry Lund eto.

Y drydedd gêm fuasai'r prawf– gêm gartref yn erbyn y ffefrynnau am y Gynghrair sef ail dîm Porthmadog. Gêm dda oedd hon eto a'r chwarae'n llifo o geg gôl i geg gôl. Er i Alwyn Williams sgorio, colli fu'r hanes o 2-1, ond gwersi gwerthfawr wedi eu dysgu.

Hogia Talysarn ddaeth draw wedyn ond Bethel yn ennill 2-1, diolch i goliau Alwyn Williams ac Alan Williams â pheniad. Mae'n dal i sôn am y gôl!

Yn eu gêm ddiwethaf sgoriwyd saith gôl yn Harlech: Gavin Edwards yn sgorio pedair gwaith yn ei gêm gyntaf i'r clwb.

Ni fydd gêm yn ystod pen-wythnos y gêm ryngwladol, felly croesawu Pwllheli fydd y gêm nesaf ar Fedi 8.

Mae'r pwyllgor yn hynod ddiolchgar am yr holl gefnogaeth, o sawl cyfeiriad, a ddaeth i'r babi newydd. Gobeithio y gwelwn o yn sefydlu ei hun yn fuan iawn. Pob lwc iddynt.

Hwyl mewn Gŵyl yn Aber

Am bedwar diwrnod ddechrau mis Awst, cynhaliwyd gŵyl griced ryngwladol i garfannau datblygu dan 13, ardaloedd Cymru. Dewiswyd dau o fro'r *Eco* yng ngharfan Eryri: Aled Hughes o Landdeiniolen ac Ian Morgan o Fethel. (Yn yr ŵyl gyfatebol i dimau –14 dewiswyd Mark Pitts o Lanrug). Dyma adroddiad Aled am y pedwar diwrnod

'Roeddem ni yn lwcus iawn gyda'r tywydd, ac fe chwaraeodd Eryri eu pedair gêm grŵp. Y gwrthwynebwyr oedd Gogledd ddwyrain Cymru, Canol Morgannwg, De Morgannwg a'r Cavaliers (tîm wedi ei wneud o aelodau pob tîm). Chwaraeais i un gêm i'r Cavaliers, ond cefais fy rhedeg allan am dair rhediad. Yr oedd 13 chwaraewr ym mhob carfan, ac yr oedd yn braf cyfarfod â chwaraewyr o bob rhan o Gymru.

Roeddem ni yn aros ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac roedd digon o hwyl i'w gael cyn trio cysgu bob nos. Roedd Ian yn aros yn y stafell drws nesaf.

Gwnaeth tîm Eryri yn arbennig o dda ac ennill pob gêm. Roedd Gerallt a Neil, y ddau hyfforddwr, yn hapus iawn gyda pherfformiad y tîm. Rwyf yn edrych ymlaen i fynd i'r rhwydi drwy'r gaeaf gyda chlwb Bangor a charfan Eryri a gobeithio y bydd Ian a fi yn cadw ein lle yn y garfan ar gyfer y tymor nesaf.'

Rygbi yng Nghaernarfon

Gyda gêm rygbi gyntaf y tymor yn erbyn Rwmania yng nghanol mis Medi, dechreuwyd sesiynau ymarfer Adran Iau Clwb Rygbi Caernarfon. Mae sesiynau hyfforddi ar gyfer hogia a genod rhwng 7 a 10 oed ar nos Wener rhwng 6 a 7 yr hwyr. Ar gyfer hogia rhwng 11 a 15 oed mae'r sesiynau ymarfer pob nos Fawrth rhwng 6 a 7 yr hwyr. Croeso i bawb, hen a newydd, i'r Morfa ger Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon.

Rhedwyr lleol yn cyrraedd y brig.

Efallai mai fel aelod o'r grŵp *Caban* y mae'r mwyafrif o bobl yn adnbod Dylan Jones o Ddeiniolen, ond eleni mae'n prysur gwneud enw iddo'i hun ym myd rhedeg mynydd. Mae wedi cael tymor hynod o lwyddiannus hyd yn hyn, gan ennill Ras Moel Hebog ym Meddgelert a gorffen yn 24ain yn Ras yr Wyddfa, gan guro pob aelod o Dîm B Cymru. Yn wir, dim ond tri aelod o Dîm A Cymru oedd ar y blaen iddo mewn ras oedd yn cynnwys nifer helaeth o redwyr rhyngwladol.

Fis yn ddiweddarach daeth yn chweched mewn ras yn Nant Peris oedd yn un o'r treialon ar gyfer dewis tim Cymru ar gyfer Pencampwriaethau Rhedeg Mynydd y Byd i'w cynnal yn ddiweddarach eleni yn yr Eidal. Efallai na fydd yn llwyddiannus i gyrraedd yr Eidal eleni, ond os pery i redeg cystal dros fisoedd y gaeaf, bydd yn sicr o ddatblygu i ddod yn un o brif redwyr mynydd Cymru erbyn y tymor nesaf.

Llongyfarchiadau hefyd i Colin Donnelly o Ddinorwig ar ei lwyddiant yn Ras yr Wyddfa. Mae'n gyn-enillydd y ras, ac eleni daeth yn bedwerydd, gan ennill yr adran i ddynion dros 40 oed mewn amser o awr, naw munud a 49 eiliad – record newydd, a hynny mewn amgylchiadau anodd i redwyr mynydd oherwydd y gwres.

Mae Gwyn Williams o Lanberis yn parhau â'i lwyddiant hefyd, a chawsom ar ddeall ei fod yntau wedi ei ddewis i gynrychioli tim rhedeg mynydd Cymru yng nghystadleuthau ieunctid y byd yn yr Eidal.